# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 4 Mawrth 2015**

Amser:
**09.30**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Alun Davidson**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddAmgylch@Cynulliad.Cymru

## Agenda

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Craffu ar waith y Gweinidog Cyfoeth Naturiol (9:30 - 11:00)

(Tudalennau 1 - 46)
Carl Sargeant AC, Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Andrew Slade, Cyfarwyddwr Amaeth, Bwyd a'r Môr

Matthew Quinn, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Neil Hemington, Pennaeth Cynllunio

Tony Clark, Pennaeth Cyllid, Adnoddau Naturiol

E&S(4)-07-15 Papur 1

E&S(4)-07-15 Papur 1 Atodiad

### 3 Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd (11:00 - 12:00)

(Tudalennau 47 - 72)
Rebecca Evans AC, Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

Andrew Slade, Cyfarwyddwr Amaeth, Bwyd a'r Môr
Graham Rees, Dirprwy Gyfarwyddwr, Môr a Physgodfeydd
Tony Clark, Pennaeth Cyllid, Adnoddau Naturiol

E&S(4)-07-15 Papur 2

## 4 Papurau i'w nodi

**Ymchwiliad i effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd: Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol** (Tudalennau 73 - 86)
E&S(4)-07-15 Papur 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**

**Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

**Dydd Mercher 4 Mawrth 2015**

1. Mae'r papur hwn yn ymateb i e-bost y Pwyllgor ar 21 Ionawr a oedd yn nodi pynciau arbennig a gwybodaeth yr hoffai ei chael ymlaen llaw.

***Polisi Ynni***

2. Mae Cynllun Cyflawni Ynni Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014 yn ddisgrifio ein hymrwymiad i ganolbwyntio a blaenoriaethu ein hymdrech mewn tri maes allweddol: darparu arweinyddiaeth; cynyddu i'r eithaf y budd i Gymru o ran swyddi a budd economaidd ehangach; a gweithredu yn awr er budd dyfodol ynni hirdymor Cymru.

3. Cydnabyddir bod ynni'r môr yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at gyrraedd ein nodau o ran ynni adnewyddadwy a chan hynny fe'i nodwyd fel blaenoriaeth ar gyfer defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru yn 2014-2020. Gan weithio gydag Ystâd y Goron rydym wedi nodi dwy ardal profi ac arddangos ar gyfer ynni'r llanw ac ynni'r tonnau yn nyfroedd Cymru. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Ystâd y Goron mai Wave Hub a Menter Môn fydd y rheolwyr trydydd parti ar gyfer yr ardaloedd; byddant hwy'n gyfrifol am reoli safleoedd, marchnata a hyrwyddo'r ardaloedd, gweithgarwch paratoadol ac is-osod ardaloedd i ddatblygwyr.

4. Eleni, byddwn hefyd yn partneru gyda Llywodraeth yr Alban ac Ystâd y Goron i gyd-ariannu partneriaeth ymchwil ledled y DU gyfan. Bydd y dystiolaeth a gesglir ar gael yn gyhoeddus a bydd yn lleihau risgiau a beichiau ar ddatblygwyr a chyrff rheoleiddio yng Nghymru, gan ei gwneud yn bosibl cael penderfyniadau amserol ar geisiadau. Byddwn yn parhau i weithio gydag Ystâd y Goron i hyrwyddo ardaloedd arddangos ar gyfer dyfeisiau morol ac yn gweithio gyda phartneriaid i ddefnyddio'r Cronfeydd Strwythurol i gefnogi'r sector newydd ar gyfer Ynni'r Môr yng Nghymru.

5. Rydym hefyd wedi gweithio'n helaeth gyda datblygwyr ynn gwynt i gynyddu i'r eithaf y budd i fusnesau a chymunedau Cymru. Rydym wedi datblygu cynllun cyffredinol ar gyfer datblygiadau ynni gwynt yng nghanolbarth Cymru, gan gynnwys dadansoddiad o anghenion y gweithlu a fydd, yn amodol ar gydsyniad i brosiectau ynni gwynt, yn arwain at gynllun hyfforddi a datblygu ar gyfer busnesau lleol.

6. Rwy'n ymrwymedig i gyflawni budd i'r gymuned, ac yng ngwanwyn 2014 fe lansion ni Gofrestr o Fuddiannau Economaidd a Chymunedol sydd, yn ei blwyddyn gyntaf, yn canolbwyntio ar weithrediadau ynni gwynt ar y tir. Mae'r gofrestr yn rhoi gwybodaeth am y budd a geir o gynlluniau ynni adnewyddadwy sydd wedi cael cydsyniad ac sy'n weithredol yng Nghymru, ac mae'n dangos sut y mae'r budd yn cael ei gyflawni. Byddwn yn ehangu'r Gofrestr er mwyn adrodd ar ystod eang o ddata economaidd, ac i gwmpasu ystod fwy o dechnolegau ynni adnewyddadwy.

7. Rydym hefyd wedi ymrwymo £5m o'n Dyraniadau Trafodiadau Ariannol i sefydlu ein Cronfa Twf Gwyrdd yn 2015/16, a fydd yn y blynyddoedd sydd i ddod yn buddsoddi mewn prosiectau sy'n gwella effeithlonrwydd ynni ac yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Eleni, byddwn yn datblygu'r arlwy ariannol ac yn sefydlu'r gronfa, a byddwn yn adnabod ac yn datblygu prosiectau cymwys i gyflwr sy'n golygu y gellir buddsoddi ynddynt. Ar 9 Chwefror cyhoeddodd ein Grŵp Llywio Twf Gwyrdd Astudiaeth Sylfaenol o Dwf Gwyrdd. Prif ddiben yr ymchwil hon oedd profi'r diffiniad o dwf gwyrdd a ddatblygwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

***Effeithlonrwydd Ynni***

8. Byddaf yn parhau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd trwy fuddsoddi yn ein rhaglen effeithlonrwydd ynni lwyddiannus a yddaf yn nodi'r camau gweithredu pellach i'w cymryd trwy ddatblygu strategaeth effeithlonrwydd ynni. Bydd y strategaeth nid yn unig yn nodi camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru, ond bydd hefyd yn canolbwyntio ar annog a chymell camau gweithredu gan eraill lle y bo'n briodol.

9. Mae ein rhaglen Effeithlonrwydd Ynni yn cynnwys cynlluniau sy'n seiliedig ar alw ac ar ardaloedd ac mae hyn yn ein galluogi i gynnig cymorth i'r aelwydydd tlotaf ledled Cymru ni waeth pa un a ydynt yn byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus ai peidio. Eleni rydym yn gwneud buddsoddiad sylweddol o £70 miliwn yn y rhaglen er gwaethaf toriadau ehangach i gyllidebau Llywodraeth Cymru.

10. Rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2014, mae Nyth wedi rhoi cyngor a chymorth i dros 56,000 o aelwydydd, gyda thros 13,400 o'r rhain yn cael gwelliannau rhad-ac-am-ddim o ran ynni'r cartref. Amcangyfrifir bod y gwelliannau hyn yn dwyn arbedion biliau ynni o £475 yr aelwyd y flwyddyn ar gyfartaledd, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i aelwydydd incwm isel. Mae'r rhaglen yn cael ei gwerthuso'n annibynnol, ac rwy'n disgwyl cyhoeddi adroddiad ar y gwerthusiad cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn helpu i lywio datblygiad unrhyw gynllun tlodi tanwydd sy'n seiliedig ar y galw yn y dyfodol.

11. Mae rhaglen ERDF bresennol Arbed 2 yn rhedeg o fis Ebrill 2012 tan fis Mehefin 2015. Mae pob cartref a gafodd ei wella wedi cael asesiad ynni ar gyfer y 'tŷ cyfan' a mesurau effeithlonrwydd megis Inswleiddio Waliau Allanol, boeleri newydd a rheolyddion gwresogi. Mae Arbed 2 wedi cwblhau, neu mae wrthi'n cyflawni, 32 o gynlluniau mewn 19 o'r 22 awdurdod lleol.

12. Mae rhaglen Arbed 2 hefyd yn cyfrannu at ddileu tlodi tanwydd trwy dargedu'r cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni yn yr ardaloedd â'r incwm isaf, a thrwy ddarparu cyfleoedd economaidd a chyflogaeth yn yr ardal leol trwy MBChau lleol. Byddwn yn cyflwyno cynnig i ddenu cyllid o'r cylch nesaf o raglenni'r UE i gefnogi'r broses o gyflawni cynlluniau sy'n seiliedig ar ardaloedd yn y dyfodol.

13. Ochr yn ochr â'r buddsoddiad ECO ychwanegol yn Nyth ac Arbed, rydym wedi trefnu bod cyllid grant ar gael i awdurdodau lleol er mwyn iddynt gyflawni eu cynlluniau effeithlonrwydd ynni lleol eu hunain. Mae'r cynlluniau hyn yn targedu cymunedau amddifadus, yn ysgogi buddsoddiadau trwy'r ymrwymiad cwmnïau ynni ac yn cefnogi rhaglenni gwaith ehangach yn eu hardal gan gynnwys y rhai a gyflawnir trwy Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

### *Rheoliadau Adeiladu*

14. Daeth y rheoliadau diwygio i gyflwyno newidiadau i Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu i rym ar 31 Gorffennaf 2014. Roedd y newidiadau hyn yn golygu y byddai anheddau newydd 8% ac anheddau annomestig 20% yn fwy effeithlon o ran ynni o'i gymharu â Rheoliadau Adeiladu 2010 a hefyd yn cynnal ein nod o leihau allyriadau carbon yng Nghymru trwy gyflwyno safonau effeithlonrwydd ynni uwch ar gyfer adeiladau newydd. Byddwn yn adolygu Rhan L eto yn 2016, ac mae'r adolygiad wedi'i fwriadu i fod y cam nesaf wrth symud ymlaen tuag at darged yr UE o adeiladau sydd bron yn ddi-ynni erbyn 2019 (adeiladau cyhoeddus newydd) a 2021 (pob adeilad newydd).

15. Fe wnaed gwelliannau sylweddol hefyd o ran y modd yr ydym yn rheoleiddio gwaith adeiladu mewn adeiladau presennol, gan ei bod yn ofynnol i unrhyw estyniadau neu addasiadau integredig i adeiladau gyrraedd safonau gwell o ran effeithlonrwydd y ffabrig, gan gael eu hadeiladu o ddeunyddiau sydd yr un mor effeithlon o safbwynt thermol ag unrhyw gartref newydd yng Nghymru.

16. Fe gyflwynodd diwygiadau pellach ddull graddol o gyflwyno systemau chwistrellu awtomatig ar gyfer tân mewn adeiladau preswyl, a'r rheiny'n gymwys i ddechrau i adeiladau risg uchel megis cartrefi gofal, neuaddau preswyl newydd ac addasedig ar gyfer myfyrwyr, tai llety a rhai hostelau o 30 Ebrill 2014. O fis Ionawr 2016 bydd y gofynion yn gymwys i'r holl anheddau newydd ac addasedig.

17. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau gweithredol yn Neddf Adeiladu 1984, gan gynnwys y grym i wneud rheoliadau adeiladu, wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru ond nid yw swyddogaethau sy'n ymwneud ag adeiladau ynni a eithrir neu sydd i'w cyflawni gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel awdurdod y Goron dan y Ddeddf Adeiladu wedi'u datganoli. Argymhellodd adroddiad Rhan 2 Comisiwn Silk ar ddatganoli yng Nghymru yn 2014 y dylai swyddogaethau gweddillol gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru. Bydd yr argymhelliad hwn ac argymhellion eraill yn yr adroddiad yn cael eu hystyried unwaith y bydd ymateb Llywodraeth y DU wedi'i gyhoeddi.

18. Rhagwelir y bydd polisi a thargedau o ran rheoliadau adeiladu yng Nghymru'n dilyn llwybr gwahanol ac ymhen 10 mlynedd y gallai rheoliadau adeiladu yng Nghymru fod yn wahanol iawn i'r rhai yn Lloegr. Er mwyn cefnogi ein dyheadau byddwn yn parhau i ddatblygu rheoliadau mewn ffordd sy'n cydnabod yr ystod o sgiliau ac adnoddau sydd ar gael ar draws y diwydiant adeiladu yng Nghymru.

### *Y Newid yn yr Hinsawdd*

19. Yn dilyn y Datganiad Llafar a wnes fis Hydref diwethaf, rydym bellach yn canolbwyntio ar y camau gweithredu y gallwn eu cymryd er mwyn cyflawni mewn perthynas â'r blaenoriaethau (Dileu risg i'r hinsawdd, Lleihau allyriadau; Cynyddu Effeithlonrwydd Ynni, a Rhoi Hwb i Economi Carbon Isel).

20. Fodd bynnag, mae angen inni fod yn glir nad yw hyn yn ymwneud â chamau gweithredu gan y Llywodraeth yn unig – er mwyn inni allu gweithredu'n llwyddiannus ar y newid yn yr hinsawdd bydd yn rhaid wrth gydymdrechion gan bob sector. Fodd bynnag, mae momentwm sylweddol ar gyfer newid yn bodoli ledled Cymru ac wrth gwrs yn rhyngwladol yn y cyfnod cyn Cynhadledd Paris

ym mis Rhagfyr 2015. Ar 4 Mawrth byddaf yn gwneud Datganiad Llafar, yn amlygu sut yr ydym yn cyflawni camau gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

### *Llifogydd ac Erydu Arfordirol*

Adolygu Llifogydd Arfordirol Cymru gan CNC

21. Ar 5 Ionawr 2015 cyhoeddodd CNC y Cynllun Cyflawni Arfordirol i weithredu'r 47 o argymhellion a oedd wedi'u cynnwys yn yr Adolygiad o Lifogydd Arfordirol. Mae'r prosiect cydweithredol hwn yn cynnwys yr holl awdurdodau rheoli perygl o amgylch Cymru.

22. Mae'r Cynllun Cyflawni'n nodi sut y gellir canlyn arni â'r argymhellion gan gynnwys arweinwyr y cytunwyd arnynt, allbynnau a fydd yn cael eu cyflawni ac amserlenni disgwyliedig. Rydym eisoes yn gweithio'n galed i weithredu'r argymhellion a hyd yma, mae 7 wedi'u cyflawni, 33 ar waith a 7 heb gychwyn eto.

Cynlluniau Rheoli Traethlin

23. Cafodd pob un o'r pedwar Cynllun Rheoli Traethlin ar gyfer arfordir Cymru eu cymeradwyo yn 2014. Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn bwysig o ran helpu i gyfeirio ein buddsoddiadau yn y dyfodol a byddant yn dylanwadu ar y modd yr ydym yn paratoi ein cymunedau arfordirol yn erbyn effeithiau codiad yn lefel y môr a'r newid yn yr hinsawdd. Er eu bod yn anstatudol, mae'r 'dogfennau byw' hyn yn rhan o'n strategaeth llifogydd ac arfordirol ac maent yn cyflawni rôl bwysig mewn gwaith blaengynllunio.

24. Ysgrifennodd swyddogion at yr holl Brif Swyddogion Cynllunio a Swyddogion Llifogydd Arweiniol yr holl awdurdodau lleol ym mis Ionawr, gan eu hysbysu bod Cynlluniau Rheoli Traethlin wedi cael eu cymeradwyo ac y dylai penderfyniadau cynllunio ar hyd yr arfordir roi sylw i'r cynlluniau hyn.

### *Cynllun Adfer Natur*

25. Yr ymgynghoriad ar Gynllun Adfer Natur Cymru oedd y cam cyntaf gan Lywodraeth Cymru o ran diffinio'r cyfeiriad teithio ar gyfer camau gweithredu ar fioamrywiaeth yng Nghymru, yng nghyd-destun ein hymrwymiad i sefydlu dull integredig o reoli adnoddau naturiol, a chyflawni ein hymrwymiadau rhyngwladol dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) a thargedau Aichi a'r UE dros y pum mlynedd nesaf.

26. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 3 Rhagfyr 2014 a bûm yn un o gyfarfodydd Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ddiweddar i drafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r camau nesaf. O ganlyniad, rydym yn gweithio gyda'r Bwrdd i gynhyrchu cynllun gweithredu a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu'r camau gweithredu strategol a nodwyd yn yr ymgynghoriad a fydd yn ategu cyflwyniad y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu drwy'r Mesur yr Amgylchedd.

27. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiad i gael strategaeth bioamrywiaeth a chynllun gweithredu yn ei le erbyn diwedd 2015, a byddaf yn gwneud datganiad ysgrifenedig yn amlinellu'r camau nesaf yn llawn cyn bo hir.

*Y Gronfa Natur*

28. Fe gyhoeddais restr derfynol y prosiectau a fydd yn cael cymorth o'r Gronfa Natur ym mis Tachwedd 2014. Bydd cyfanswm o 19 prosiect arloesol a chydweithredol yn cael cyllid ar draws y saith Ardal Weithredu Byd Natur. Bydd y prosiectau hyn yn darparu sawl budd trwy amrywiaeth o weithgareddau a nodir gan y Gronfa, gan gynnwys; rheoli ucheldir ar raddfa'r dirwedd; adfer cynefinoedd a sefydlu mecanweithiau i greu cyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd i ffermwyr a thirfeddianwyr.

29. Yn ychwanegol at y prosiectau unigol hyn, mae'r Gronfa Natur hefyd yn buddsoddi'n uniongyrchol mewn prosiect i greu 30ha o goetir brodorol yng Nghwm Llynfi ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Bydd y prosiect yn creu coetir ar hen safle glofa a golchdy a thrwy wneud hynny mae'n amcanu at gynyddu gwerth y tir a darparu sawl budd ehangach ar gyfer y cyhoedd a'r gymuned gyfagos.

30. Mae gwaith wedi dechrau bellach ar yr holl brosiectau a gyllidir gan y Gronfa Natur; caiff gwybodaeth am gynnydd pan fydd ar gael ei chyfleu i'n rhanddeiliaid trwy'r Bwletin Newyddion Adrannol ac ar ein gwefan. Mae cynlluniau'n cael eu cwblhau yn awr ar gyfer monitro a gwerthuso'r Gronfa yn ei chyfanrwydd a fydd yn tynnu ar y gwaith monitro a gwerthuso unigol a wnaed gan bob prosiect.

31. Mae'r prosiectau'n amcanu at gwblhau cymaint â phosibl o'r gweithgareddau 'ar y llawr' erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon; fodd bynnag, oherwydd yr oedi cyn cyhoeddi'r prosiectau terfynol a fyddai'n cael cymorth ar ddiwedd 2014, byddwn yn gweithio gyda'r prosiectau tan ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf i sicrhau y gellir cyflawni cyfanrwydd y prosiectau fel a fwriadwyd.

32. Mae manylion y taliadau rhagamcanol o'r Gronfa i bob prosiect wedi'u nodi yn Atodiad A.

***Coedwigaeth***

33. Mae'r cynigion sy'n gysylltiedig â choedwigaeth yn y cais am gyllid dan y Rhaglen Datblygu Gwledig (2014-2020) yn cynnwys cynnig am gymorth ariannol i alluogi coetiroedd i gael adferiad o effeithiau Phytopthora ramorum. Mae'r cynigion hyn yn cael eu negodi ar hyn o bryd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd.

34. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda CNC a'r sector preifat ar hyn o bryd ar raglen ar gyfer adferiad o P ramorum. Yn dilyn gweithdy (a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth eang o blith rhanddeiliaid) a chyfarfodydd dilynol, mae 24 argymhelliad wedi cael eu gwneud, y mae rhai ohonynt eisoes yn cael eu paratoi.

35. Mae'r argymhellion yn cynnwys materion megis blaenoriaethau strategol, ardystio a rheoleiddio (h.y. ystyried rheoliadau a phrosesau cwympo coed mewn perthynas â choed claf), gweithrediadau cynaeafu a marchnata, effeithiau cymdeithasol ac economaidd, ailstocio ac amrywiaeth rhywogaethau a materion amgylcheddol ehangach (megis gweithio gyda phlanhigfeydd coed a'r diwydiant garddwriaethol er mwyn cyflwyno system i ddarparu gwybodaeth well am darddiad planhigion a glasbrennau o blanhigfeydd).

36. Mae llawer o'r argymhellion yn y rhaglen ar gyfer adferiad yn ddibynnol ar gymorth ariannol trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig ac unwaith y bydd cadarnhad wedi dod i law yn hyn o beth bydd cais ffurfiol yn cael ei gyflwyno i mi ar gyfer penderfyniad ynghylch eu gweithredu.

**Y Môr a Physgodfeydd**

37. Fy mlaenoriaethau yw cynyddu i'r eithaf y budd economaidd a chymdeithasol i Gymru o ganlyniad i ddefnyddio ein hadnoddau morol, a sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn modd cynaliadwy er mwyn peidio â pheryglu argaeledd yr adnoddau hynny ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

38. Mae angen i'r broses o gyrraedd y nodau trosfwaol hyn gael ei hystyried yng nghyd-destun y rhwymedigaethau statudol Ewropeaidd y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu cyflawni. Y ddwy bwysicaf yw gweithredu'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Mae'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn cynnwys targedau sy'n gryn her y mae'n rhaid inni eu cyrraedd.

39. Bydd y gwaith o gyflawni'r Cynllun Morol Cenedlaethol drafft cyntaf ar gyfer Cymru yn cefnogi'r rhain ac rwy'n dal i fod yn ymrwymedig i gyflawni Cynllun Morol Cenedlaethol ar gyfer Cymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Bydd y cynllun yn seiliedig ar ragolygon dros 20 mlynedd i ddechrau er mwyn datblygu'r manylion, gan gynnwys dyfroedd glannau a dyfroedd môr mawr Cymru. Bydd yn egluro amcanion a blaenoriaethau morol, gan ddarparu cyfarwyddyd tuag at benderfyniadau cyson, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer defnyddio ein moroedd yn gynaliadwy.

40. Fe nododd y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Môr a Physgodfeydd dargedau a oedd yn her ar gyfer twf y sector Dyframaeth yng Nghymru. Rydym yn ystyried bod datblygu dyframaeth yn elfen bwysig o dwf glas yng Nghymru. Byddai'r targedau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r diwydiant ddyblu cynhyrchiant i bob pwrpas o'i gymharu â lefelau 2011 yn cadw Cymru fel y prif gynhyrchydd cregynbysgod a ffermir yn y DU. Byddaf yn amlinellu Strategaeth Ddyframaeth a ddatblygwyd ar y cyd â'r diwydiant a sefydliadau ymchwil eleni, i gefnogi'r targed hwnnw ac i sicrhau mwy o fudd economaidd hirdymor i Gymru.

41. Bydd Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn darparu platfform o fuddsoddiad yn y sectorau pysgodfeydd a dyframaeth yng Nghymru, gan sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r diwydiant. Bydd Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop hefyd yn helpu i weithredu'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a sicrhau bod dyfodol rheoli pysgodfeydd yn cael ei danategu gan dystiolaeth briodol.

42. Rydym yn ymrwymedig i gyfrannu at rwydwaith ecolegol-gydlynol o ardaloedd morol gwarchodedig ac i sicrhau bod ein safleoedd yn cael eu rheoli'n dda erbyn diwedd 2016. Rydym yn gweithio i wneud mwy i gryfhau'r warchodaeth ar gyfer adar o fewn y rhwydwaith ac rydym yn paratoi i weithio i adnabod ardaloedd ar gyfer llamidyddion. Byddwn yn trafod y gwaith hwn gyda rhanddeiliaid yn y dyfodol agos.

**Gwahardd rhwydi drifft**

43. Rydym wedi gwneud cyfraniad pwysig at ymateb y DU i gynnig y Comisiwn Ewropeaidd i wahardd y defnydd o unrhyw fath o rwyd ddrifft yn nyfroedd yr UE. Roedd y gwaharddiad hwn wedi'i fwriadu i fod yn gymwys o 1 Ionawr 2015, yn amodol ar gytundeb gydag Aelod-wladwriaethau a Senedd Ewrop.

44. Roedd y cynnig yn disgrifio'n arbennig broblemau gyda sgîl-ddal aelodau o deulu'r morfil, crwbanod y môr ac adar y môr wrth ddefnyddio rhwydi drifft a gorfodi annigonol ar reoliadau presennol yr UE, yn enwedig ym Môr y Canoldir. Yn ein cyfraniad rydym wedi dynodi ei bod yn hynod annhebygol bod unrhyw broblem o ran sgîl-ddal rhywogaethau agored i niwed ym mhysgodfeydd rhwydi drifft glannau Cymru.

45. Wrth ymateb i'r Comisiwn rydym wedi datgan bod yn rhaid bod rhanddirymiad priodol ar gyfer y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill mewn sefyllfa debyg sy'n nodi ystod o feintiau rhwyllau llai ar gyfer rhwydi drifft na'r rhai a ddefnyddir yn y pysgodfeydd rhwydi drifft pelagig ar raddfa fawr, ynghyd ag elfen gylchfaol, o fewn parth 12 milltir yr Aelod-wladwriaethau er enghraifft.

46. Rydym yn disgwyl am ymateb y Comisiwn i'r wybodaeth ychwanegol hon yn awr. Gan fod angen cytundeb rhwng yr Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn a chan fod angen cael trafodaeth yn Senedd Ewrop, ni fydd y gwaharddiad arfaethedig yn cael ei weithredu am y tro.

**Carl Sargeant AC**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Chwefror 2015

**Atodiad A**

**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**

**Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

**Dydd Mercher 4 Mawrth 2015**

**Archwiliad cyllidebol**

1. Mae'r atodiad hon yn ymateb i e-bost y Pwyllgor ar 21 Ionawr a oedd yn nodi gwybodaeth cyllidebol arbennig yr hoffai ei chael ymlaen llaw.

***Newidiadau a wnaed o fewn y portffolio o ganlyniad i'r ddwy Gyllideb Atodol ar gyfer 2014-15, o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2014-15, ar Lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb***

2. Nid oedd unrhyw newidiadau i'r gyllideb yng Nghyllideb Atodol 1, a chafodd y canlynol eu gweithredu fel rhan o Gyllideb Atodol 2.

   Bron yn arian parod

   - £12.981m o arbedion yn ystod y flwyddyn wedi'u dychwelyd i gronfeydd wrth gefn ar gais y Gweinidog Cyllid i gefnogi buddsoddiadau ychwanegol yn y GIG;
   - £8.8m wedi'i symud o'r gyllideb adnoddau i'r gyllideb gyfalaf i gyllido pwysau (gweler y dadansoddiad yn yr adran ar gyllidebau cyfalaf);
   - £1m o gyllid llifogydd wedi'i ddwyn ymlaen o 2013-14 dan y Mecanwaith Cyfnewid Cyllidebau i gefnogi'r cynlluniau atal llifogydd a raglennir wedi'u hailbroffilio y bu oedi gyda hwy o ganlyniad i'r atgyweiriadau brys i amddiffynfeydd llifogydd a gyflawnwyd oherwydd stormydd y gaeaf y llynedd;
   - £2.5m o gyllid Buddsoddi i Arbed o gronfeydd wrth gefn i mewn i gyllideb CNC ar gyfer cynnig llwyddiannus Cyfoeth Naturiol Cymru am fenter Buddsoddi i Arbed;
   - £2.392m o incwm o ffermydd gwynt o CNC i gronfeydd wrth gefn mewn perthynas ag incwm disgwyliedig o brydlesau ffermydd gwynt;
   - £0.167m o'r rhaglen ynni glân i'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth mewn perthynas ag adnoddau'r rhaglen Ynni, a drosglwyddodd i'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ystod y newid diwethaf i bortffolios ym mis Gorffennaf;
   - £0.365m o Gam Gweithredu'r Dirwedd a Hamdden Awyr Agored i'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gefnogi Nofio am Ddim a'r rhaglen Chwaraeon mewn Ysgolion a drosglwyddodd i'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ystod y newid diwethaf i bortffolios ym mis Gorffennaf;
   - £0.450m o gyllideb CNC i'r Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i drosglwyddo i Costau Adnoddau Adrannol i gyllido staff Coedwigaeth a ymunodd â Llywodraeth Cymru yn dilyn ffurfio CNC;
   - £0.038m o gyllideb Cam Gweithredu'r Newid yn yr Hinsawdd i Brif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu fel cyfraniad at raglen 'Maint Cymru' ar gyfer Affrica;

- £0.030m o gyllideb Gweinyddu'r Taliad Sengl i Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas â Thribiwnlysoedd Tir, sydd bellach yn rhan o'u portffolio;
- Cafodd yr holl drosglwyddiadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant eu gweithredu i ailalinio cyllidebau ar gyfer gwella'r broses adrodd ac i gyllido nifer o bwysau ar draws y Prif Grŵp Gwariant;

<u>Nad yw'n arian parod</u>

- £5.706m o gronfeydd wrth gefn i gwrdd â chostau dibrisiant cynyddol system isadeiledd TGCh CNC;
- £0.670m o gronfeydd wrth gefn i gwrdd â'r costau dibrisiant a gododd o weithredu system TG Ar-lein Taliadau Gwledig Cymru yn dilyn buddsoddiad cyfalaf cychwynnol.

<u>Cyfalaf</u>

- £5m o gyllid llifogydd a ddygwyd ymlaen o 2013-14 dan y Mecanwaith Cyfnewid Cyllidebau i gefnogi'r cynlluniau atal llifogydd a raglennir wedi'u hailbroffilio y bu oedi gyda hwy o ganlyniad i'r atgyweiriadau brys i amddiffynfeydd llifogydd a gyflawnwyd oherwydd stormydd y gaeaf y llynedd;
- £8.8m o gyfalaf ychwanegol trwy symud o'r gyllideb bron yn arian parod i'r gyllideb gyfalaf i gyllido'r pwysau canlynol:
  - Newydd Ddyfodiaid i Ffermio: £1.6m (grant cyfalaf gyda chyllid refeniw)
  - EID Cymru: £0.3m (cyllid datblygu)
  - Diwygio'r PAC: £6.9m (Buddsoddi mewn isadeiledd TGCh)
- £2.74m o'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi i ran-ariannu Cam 2 Arbed – hon yw blwyddyn olaf y cytundeb tair blynedd;
- Amryw drosglwyddiadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant i ailalinio cyllidebau ac ysgafnhau pwysau ar draws y Prif Grŵp Gwariant.

***Manylion unrhyw gyllid ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer CNC yn 2014-15 ar ben y cymorth grant a ddangosir yng Nghyllideb Derfynol 2014-15.***

3. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon (2014/15) cynlluniodd CNC ar gyfer cyllideb fantoledig o £191.4m. Mae'r rhagolygon cyfredol fel a ganlyn:
   - **Incwm blynyddol £203.3m** (yn bennaf oherwydd £5m o incwm ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mentrau Buddsoddi i Arbed, treialon Rheoli Adnoddau Naturiol, ac incwm masnachol ychwanegol).
   - **Gwariant blynyddol £202.2m** (wedi gostwng o £202.7m o ganlyniad i ymdrechion cynyddol gyda chostau mewnol.)
   - **Alldro a Ragwelir: Gwarged o £1.1m** ar ddiwedd y flwyddyn, (bwriedir ei gario ymlaen i 2015/16).

.

4. Gweler isod y prosiectau unigol sydd wedi cael ymrwymiad ar gyfer cymorth ychwanegol. Mae'r ffigyrau hyn yn ymwneud â darpariaethau a fydd yn cael eu talu yn 2014/15. **Noder** ei bod yn debygol y bydd taliadau ychwanegol cyn diwedd y flwyddyn ond nid yw'r union ffigyrau'n hysbys eto

| | |
|---|---|
| Ymchwil i Rywogaethau Estron Goresgynnol (paratoi ar gyfer deddfwriaeth newydd) | £138,500 |
| Arfarniadau ar gyfer strategaeth dŵr | £8,000 |
| A465 – gallu ychwanegol ar gyfer asesu'r cynllun (Cyllidir gan yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth) | £128,700 |
| Glastir Uwch – Ansawdd Dŵr | £470,000 |
| Asesiad o gymeriad y forwedd | £35,000 |
| Cynllun Morol Cymru | £40,595 |
| Pysgodfa Gocos Cilfach Tywyn | £75,000 |
| Ffrwd data gwastraff | £138,500 |
| Taclo Tipio Cymru | £185,000 |
| Treialon ardal rheoli adnoddau naturiol | £1,000,000 |
| Y Gronfa Natur (Prosiect Llynfi) | £627,000 |
| Cyfalaf Llifogydd – Cyllid Cydgyfeirio Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | £190,000 |
| Cyfalaf Llifogydd – Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru | £8,150,000 |
| Trosglwyddo Byrddau Draenio Mewnol | £296,500 |

***Y Gronfa Natur***

5. Mae'r tabl isod yn nodi'r cyllid a ddyrennir i bob un o brosiectau'r Gronfa Natur. Mae hefyd yn dangos y taliadau rhagamcanol o'r gronfa i bob prosiect ac yn nodi pa un a yw taliadau'n cael eu gwneud fel ôl-daliadau ynteu fel rhagdaliadau.

| Teitl y Prosiect | Dyfarniad o'r Gronfa Natur | Taliad erbyn ddiwedd mis Ionawr 2015 | Taliad a ragamcanir erbyn diwedd mis Mawrth 2015 | Cyfansymiau terfynol y taliadau a ragamcanir ar gyfer 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Coed Cymru ac Ymddiriedolaethau Afonydd** | £658,500 | 0 | £373,600 | £284,900 |
| **Prosiect Adfer Ucheldir Berwyn a Migneint, y Mynyddoedd Duon a Maesyfed** | £241,800 | 0 | £241,800 | 0 |
| **Buzz Naturiol – prosiect i gefnogi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio** | £130,000 | £108,000 | £22,000 | 0 |
| **Cynllun Gwella Dyffryn Elwy – Prosiect Gwella Cynefinoedd** | £180,000 | 0 | £180,000 | 0 |
| **Cysylltedd Arfordirol Partneriaeth Llŷn** | £200,000 | | £30,000 | £170,000 |
| **Llystyfiant dieisiau ac adfer mawndiroedd** | £132,000 | | £132,000 | 0 |
| **Cynnig am gyllid natur ar gyfer Y** | £190,000 | £121,550 | £45,900 | £22,550 |

| Teitl y Prosiect | Dyfarniad o'r Gronfa Natur | Taliad erbyn ddiwedd mis Ionawr 2015 | Taliad a ragamcanir erbyn diwedd mis Mawrth 2015 | Cyfansymiau terfynol y taliadau a ragamcanir ar gyfer 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Goedwig Hir** | | | | |
| **Peatland Push Cymru – Tirwedd Fyw Pumlumon (PLL) – Cynllun Talu am Wasanaethau Ecosystem (PES)** | £59,000 | 0 | £34,356 | £24,644 |
| **Prosiect Ucheldir Cymoedd y Dwyrain** | £280,000 | 0 | £205,493 | £74,507 |
| **Pond Connections** | £63,000 | 0 | £27,822 | £35,178 |
| **Penrhyn Castellmartin: Integreiddio Adnoddau Naturiol a Chymdeithasol** | £144,000 | 0 | £71,750 | £72,250 |
| **Future Fisheries - Living Seas** | £62,000 | £0 | £52,250 | £9,750 |
| **Prosiect Pollinators for life** | £282,100 | 0 | £242,920 | £39,180 |
| **Prosiect Glaswellt y Gweunydd Elenydd** | £152,000 | 0 | £90,045 | £61,955 |
| **Partneriaeth Menter Ecosystemau (EEP) – Prosiect Ecobank** | £150,000 | 0 | £150,000 | 0 |
| **Adfer Ecosystemau'r Mynyddoedd Duon: Cysylltu Mawndiroedd, Rhostiroedd, Afonydd a Choetiroedd** | £201,500 | 0 | £188,750 | £12,750 |
| **Rheoli a chael budd o adnoddau coetir yng Nghonwy wledig** | £125,000 | £51,000 | £74,000 | 0 |
| **Rhaglen Tirwedd y Dyfodol NWM (Yn cynnwys Llyn Fyrnwy, Rhostir Cynaliadwy, Datblygu ecosystem a Ffocws Cynghori Ffermwyr)** | £241,800 | 0 | £179,711 | £62,089 |
| **Gwaith cysylltedd yn Nalgylch Duhonw** | £128,000 | 0 | £128,000 | 0 |
| **Cwm Llynfi** | £627,000 | 0 | £627,000 | 0 |
| **Cronfa Pontio CNC** | £750,000 | 0 | £750,000 | 0 |
| **Cyfanswm** | **£4,997,700** | **£280,550** | **£3,847,397** | **£869,753** |

6. Mae'r gwariant a'r gyllideb a glustnodwyd ar gyfer y Gronfa Natur yn eistedd gyda Llinell Wariant 2828 ym Mhrif Grŵp Gwariant 1000-Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Mae'r cyllid hyd yma wedi cael ei ddyrannu o arian heb ei ymrwymo o Linell Wariant Yr Amgylchedd Naturiol 2825, Llinell Wariant Perygl Llifogydd 2230 (mae'r prosiectau a gefnogir gan y cyllid arfaethedig yn cynnwys rhai a fydd yn defnyddio datrysiadau naturiol ar gyfer rheoli perygl llifogydd neu'n darparu dulliau gwell ar gyfer rheoli tir a allai leihau perygl llifogydd), a Llinell Wariant Newid yn yr Hinsawdd 2815 (mae'r prosiectau a gefnogir gan y cyllid arfaethedig yn defnyddio dulliau naturiol o liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd neu'n ychwanegu cadernid er enghraifft dal a storio carbon mewn mawndiroedd, creu gwlypdiroedd a chreu coetiroedd).

7. Yr elfen olaf o'r Gronfa Natur yw darparu £750,000 ar gyfer CNC i helpu'r sefydliad gyda'i phroses bontio o ran datblygu'r arfer o Reoli Adnoddau Naturiol mewn modd integredig. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gefnogi nifer o brosiectau a fydd yn cyfrannu at y tri threial ardal sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yn nalgylchoedd afonydd Dyfi, Rhondda a Thawe i helpu i ddarparu'r dystiolaeth a'r gwersi i lywio'r newid tuag at reoli adnoddau naturiol mewn modd integredig.

***Llifogydd ac Erydu Arfordirol***

8. Dros y flwyddyn ariannol hon byddwn wedi buddsoddi £55.6m mewn rheoli risg llifogydd. Mae hwn wedi'i rannu fel a ganlyn:
    - Cyllideb Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM): £9.8m
    - Cyllideb Refeniw Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM): £27.3m
    - ERDF: £6m
    - Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIP): £12.5m

9. Rydym wedi buddsoddi dros £245 miliwn mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol dros oes y Llywodraeth hon. Cefnogir hyn gan bron i £50 miliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop dros gyfnod o chwe blynedd a ddaw i ben yn 2015.

Dadansoddiad blynyddol o'r gyllideb graidd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol:

| **Blwyddyn Ariannol** | **Cyllideb Adrannol Flynyddol FCERM** | | | **Cyllid Cyfalaf Ychwanegol a Gafwyd yn y Flwyddyn** | | | **Cyfanswm Cyllid (FCERM + ffynonellau ychwanegol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfalaf** | **Refeniw** | **Cyfan-swm y Gyllideb FCERM** | **CRC/ WIIP** | **Trosglwyddiadau Is-adrannol** | **ERDF** | |
| **2011/12** | 17.0 | 19.7 | 36.7 | 2.2 | 3.5 | 15.0 | 57.4 |
| **2012/13** | 14.7 | 21.0 | 35.7 | 11.0 | | 9.0 | 55.7 |
| **2013/14** | 14.7 | 27.4 | 42.1 | 14.0 | | 5.0 | 61.1 |
| **2014/15** | 9.8 | 27.3 | 37.1 | 13.5 | | 7.0 | 57.6 |
| **2015/16** | 9.8 | 27.3 | 37.1 | 12.5 | | 6.0 | 55.6 |
| Oes y Llywodraeth | 66.0 | 122.7 | | 53.2 | 3.5 | 42.0 | 287.4 |

**<u>Refeniw:</u>** Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n mynd â'r mwyafrif o'r gyllideb refeniw gyda thuag £19.5m yn flynyddol. Caiff gweddill y gyllideb refeniw ei rhannu rhwng y grant Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, costau staff rhaglenni a meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer y Rhaglen Llifogydd.
**<u>Cyfalaf:</u>** Caiff dyraniadau Cyfalaf Cymorth Grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) ar gyfer eleni eu nodi yn y tabl isod. Mae gan gynlluniau draenio tir gyfradd grant o 85%, sy'n golygu bod gofyn i'r awdurdod

lleol arweiniol ddarparu cyllid cyfatebol o 15% tra gall cyfradd y grant ar gyfer cynlluniau arfordirol fod hyd at 100%.

10. CNC sy'n gyfrifol am gynlluniau prif afonydd ac maent yn rheoli eu rhaglen gyfalaf eu hunain gyda chyllid o Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIP), Cymorth Grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a chyllid ERDF trwy Ewrop. Mae CNC yn rhagweld gwariant o £19.3M ar gynlluniau cyfalaf ar gyfer 2014/15.

11. Ym mis Ionawr, fe gyhoeddais gyllid ychwanegol o £150,000 ar gyfer CNC oddi mewn i gyllidebau Rheoli Perygl Llifogydd i gynorthwyo gyda'r gwaith o weithredu'r argymhellion. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn ei gwneud yn bosibl cwblhau o leiaf 37 erbyn diwedd 2015, heb yr angen i ail-flaenoriaethu gwaith.

12. Gall Dŵr Cymru Welsh Water gael budd o gyllid ERDF ar gyfer rheoli perygl llifogydd hefyd. Ar gyfer 2014/15 mae hyn yn gyfanswm o £1.4m.

<u>Cynlluniau awdurdodau lleol 2014/15:</u>

| **Awdurdod Lleol** | **Cyllideb FCERM** | **ERDF** | **Mae'n Cynnwys Cynlluniau yn:** |
|---|---|---|---|
| Ceredigion | 3,725,000 | | Borth Cam 2 (Arfordirol) |
| Conwy | 1,960,679 | | Bae Colwyn cam 1c (Arfordirol), Afon Bach, Llansannan. (Draenio Tir) |
| Sir Ddinbych | 1,823,935 | 1,975,887 | Gorllewin y Rhyl (Arfordirol) |
| Ynys Môn | 568,758 | 551,167 | Biwmares (Arfordirol) |
| Caerffili | 178,500 | | Ynysddu (Draenio Tir) |
| Caerdydd | 854,326 | 702,674 | Yr Eglwys Newydd/Rhiwbeina (Draenio Tir) |
| Sir Fynwy | 411,457 | 522,972 | Station Road, Blake street (Draenio Tir) |
| Sir Benfro | 465,000 | | Aber Bach (Llifogydd llanw) |
| Powys | 955,990 | 999,329 | Kerry Gilfach, pentref Tregynon, Talgarth cam 2 (Draenio Tir) |
| Rhondda Cynon Taf | 679,474 | 760,009 | Nant Gwawr, Bwlffa Road, Rhydyfelin, Nant y Fedw (Draenio Tir) |
| Bro Morgannwg | 474,791 | 457,018 | Colbrwg (Dalgylch) |

**Y Môr a Physgodfeydd**

13. Mae disgwyl i Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol wario tua £500,000 yn y flwyddyn ariannol hon i gefnogi'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Môr. Bydd y gwariant yn canolbwyntio ar draws y prosiectau o fewn y rhaglen yn ogystal â deddfwriaeth. Oherwydd ansicrwydd o ran y gwariant disgwyliedig yn y maes hwn yn ystod y flwyddyn, ynghyd â lefel ddisgwyliedig y gostyngiadau yn y gyllideb, ni chafodd cyllid ei ddyrannu yn ystod proses y gyllideb atodol; yn

hytrach mae'r gyllideb ar gyfer Y Môr a Physgodfeydd ar y cyfan yn cael ei monitro a gall amsugno rhywfaint o'r gwariant hwn, a bydd unrhyw ddiffyg yn cael ei reoli o fewn hyblygrwydd yn y Prif Grŵp Gwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Unwaith y bydd proffil y gwariant cyfredol a phellach ar y Cynllun Gweithredu Strategol wedi cael ei nodi ymhellach, bydd y cyllidebau'n cael eu dyrannu ym mhroses y gyllideb atodol yn ystod 2015/16.

***Y Newid yn yr Hinsawdd***

14. Mae'r gyllideb ar gyfer Tîm Gweithredu a Gwrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd, sydd â chyfrifoldeb am y Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd. wedi'i chynnwys o fewn y llinell Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd yn y Prif Grŵp Gwariant Cyfoeth Naturiol ac ar gyfer 2014-15, £617,000 yw'r gyllideb hon.

15. Mae'r llinell hon yn y gyllideb yn cynnwys cyllid statudol i Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd yn ogystal â chymorth i Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. £471,851 oedd y gwariant hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2014 a rhagwelir y bydd y gyllideb wedi'i gwario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

16. Fodd bynnag, dylid nodi bod y newid yn yr hinsawdd yn fater trawsbynciol a bydd yr holl adrannau yn Llywodraeth Cymru'n gweithio i fynd i'r afael â'r mater. Mae manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau i filwrio yn erbyn a sefydlu cadernid i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn elfen allweddol o bolisi Llywodraeth Cymru ar y newid yn yr hinsawdd.

***Canolfan Data Cymru***

17. Lansiwyd gwefan y Ganolfan Wybodaeth ym mis Gorffennaf 2014 ac mae'n darparu mynediad at ddata cadarn, cyfoes. Trwy weithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, mae setiau data allweddol ychwanegol wedi cael eu nodi fel rhai sydd â gwerth i ystod eang o ddefnyddwyr. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i flaenoriaethu'r broses o gyhoeddi'r data yma yn unol ag anghenion datblygwyr ac i ddatblygu'r offer i alluogi defnyddwyr i gael mynediad rhwydd at y data.

18. Un o egwyddorion allweddol y Ganolfan Wybodaeth yw sicrhau bod y ganolfan yn cael ei datblygu yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol i ychwanegu gwerth at y rhwydwaith presennol. Gan hynny, mae datblygiad y ganolfan wedi adeiladu ar systemau presennol, gan ddefnyddio sgiliau ac adnoddau mewnol presennol. Mae £10,000 - £20,000 pellach wedi cael ei ddyrannu o'r un gyllideb cyn diwedd y flwyddyn ariannol i gynnal yr isadeiledd TG a sicrhau adnodd datblygwr TG o Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn bosibl cyhoeddi'r setiau data sy'n flaenoriaeth a datblygu offer cysylltiedig. Bydd materion o ran darparu adnoddau ar gyfer y Ganolfan Wybodaeth a'i chynnal yn yr hirdymor yn cael sylw fel rhan o gynllun strategol.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**

**Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

**Dydd Mercher 4 Mawrth 2015**

1. Mae’r papur hwn yn ymateb i’r materion a nodwyd gan y Pwyllgor yn ei e-bost dyddiedig 21 Ionawr. Rwy’n nodi bod y Pwyllgor wedi gofyn i’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol am ddadansoddiad manwl o ganlyniad y ddwy Gyllideb Atodol ar gyfer 2014-15. Mae ei ymateb ef yn ymdrin â phob agwedd ar y portffolio, gan gynnwys ffermio a bwyd.

**Y Polisi Amaethyddol Cyffredin**

2. Roedd yn dda gennyf gwrdd â’r Pwyllgor ar 11 Chwefror i drafod yr her gyfreithiol i ranbarthau’r Cynllun Taliad Sylfaenol. Mae ein gwaith cynllunio a pharatoi ar gyfer gweithredu taliadau wedi cael ei arafu gan yr her gyfreithiol yn hwyr y llynedd. Yn y pen draw mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud taliadau cyn gynted ag y gall yn y cyfnod talu.

3. Fel yr wyf wedi cadarnhau, mae’r trefniadau ar gyfer y Cynllun Taliad Sylfaenol yn 2015 yn ddibynnol ar yr opsiynau talu a ddewisir. Mae gwaith wedi dechrau ar opsiynau eraill ac mae’r rhain yn cael eu hystyried. Gan gymryd yr holl ffactorau i ystyriaeth, rydym yn amcangyfrif ar hyn o bryd y byddwn yn gallu cychwyn ymgynghoriad ym mis Mawrth. Pan fyddaf wedi ystyried yr ymatebion byddaf yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus. Bydd angen i hwn gael ei ystyried wedyn gan y Comisiwn Ewropeaidd a dim ond pan fyddaf wedi cael cymeradwyaeth ganddo y byddaf yn gallu cyfleu’n ffurfiol sut y bydd tir yn cael ei ddosbarthu. Mae hynny’n debygol o ddigwydd yn ystod mis Mehefin ar y gorau.

4. Trwy gydol y misoedd diwethaf rwyf wedi sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol, ffermwyr, rhanddeiliaid yn y diwydiant a’r cyhoedd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau.

5. O ran Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, hon fydd y rhaglen fwyaf o ran maint a’r fwyaf uchelgeisiol yn hanes Cymru, a bydd yn helpu i gefnogi busnesau a chymunedau gwledig, ac amgylchedd naturiol ffyniannus. Fe gyflwynon ni raglen i’r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Gorffennaf 2014. Ers mis Tachwedd rydym wedi bod mewn trafodaethau gyda’r Comisiwn Ewropeaidd am ei adborth ffurfiol.

6. Mae llwyth gwaith gwasanaethau’r Comisiwn Ewropeaidd wedi bod yn anferth ac yn y Cyngor Amaethyddol ym mis Rhagfyr eglurodd y Comisiynydd Hogan mai dim ond 9 allan o 118 o raglenni gweithredol oedd wedi cael eu mabwysiadu hyd yma, ac y dylai 20 arall fod yn “barod i’w mabwysiadu” yn gynnar yn 2015.

7. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal deialog adeiladol glòs gyda swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd, ac rydym wedi cael ar ddeall eu bod yn fodlon ar gwmpas, dull ac uchelgais ein Rhaglen Datblygu Gwledig. Nid yw’r meysydd sy’n dal i gael eu trafod yn rhai sylfaenol ac rydym yn credu bod ein Rhaglen Datblygu Gwledig ni yn un o’r rhai sydd wedi cyrraedd yn bell yn y broses. Rydym yn gobeithio cael cymeradwyaeth anffurfiol i’r Rhaglen yn ystod mis Chwefror / Mawrth, er ei bod yn debygol, am resymau sy’n ymwneud â phrosesau cyllidebol y Comisiwn Ewropeaidd, na fyddwn yn cael y derbyniad ffurfiol tan yr haf, pan fydd Fframwaith Ariannol Amlflwydd yr UE wedi cael ei dderbyn.

8. Rydym wedi bod yn cynllunio ar gyfer cyflawni’r rhannau unigol o’r Rhaglen Datblygu Gwledig ochr yn ochr â’n gwaith negodi gyda’r Comisiwn Ewropeaidd. Fy nod i yw cyflwyno cynlluniau mor gynnar â phosibl, ac rwy’n obeithiol y byddwn yn gallu lansio yn dilyn cael cymeradwyaeth anffurfiol.

9. Bydd gan ymyriadau rheoli tir amaeth-amgylcheddol Glastir gyfnodau ymgeisio a fydd yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Mae cynlluniau Glastir Uwch a Glastir Organig eisoes yn derbyn ffurflenni mynegi diddordeb a’r bwriad yw dechrau gwneud taliadau yn 2016 a 2017.

10. Yn unol â’r Rheoliadau Ewropeaidd, mae’n rhaid dilyn prosesau caffael cyhoeddus ar gyfer rhai elfennau o’r rhaglen. Yn ein Rhaglen Datblygu Gwledig ni, yr elfennau hynny yw Cyswllt Ffermio, y Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr a’r Cynllun Cynghori Busnesau Gwledig. Yn y rhaglen gyfredol, bydd Cyswllt Ffermio yn parhau â chyngor a hyfforddiant un-i-un tan 31 Mawrth 2015 ac mae’r brif raglen trosglwyddo gwybodaeth wedi cael ei hymestyn tan 30 Mehefin 2015. Rydym yn disgwyl y bydd y contractau newydd yn cychwyn ym mis Gorffennaf 2015, ac ar yr adeg honno bydd rhaglen newydd o gyrsiau ac ati yn agored i fuddiolwyr ymgeisio amdanynt. Y bwriad yw lleihau i’r eithaf unrhyw fwlch o ran darparu gwasanaethau ar ôl 30 Mehefin 2015.

11. Bydd LEADER yn cael ei ddarparu gan Grwpiau Gweithredu Lleol. Mae’n dda gennyf adrodd bod Grwpiau Gweithredu Lleol a’u Strategaethau Datblygu Lleol yn cael eu hasesu gyda golwg ar eu cymeradwyo yn ystod mis Chwefror 2015.

12. Bydd gweddill y Rhaglen Datblygu Gwledig yn cael ei ddarparu trwy raglenni grant economaidd-gymdeithasol. Bwriedir ymdrin â’r rhain trwy gyfres o geisiadau am gynigion gyda meini prawf cymhwystra a dethol yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw a dyddiadau cau eglur yn cael eu pennu. Bydd ceisiadau am gynigion yn cael eu cyhoeddi trwy gydol y rhaglen, ac yn cael eu hysbysebu i sicrhau bod buddiolwyr yn ymwybodol bod cyfnod ymgeisio ar agor, faint o gyllideb sydd ar gael a phryd y bydd y cyfnod nesaf yn agor. Bydd hyn yn darparu calendr o geisiadau am gynigion fel bod darpar fuddiolwyr yn gallu cynllunio rhag blaen a threfnu bod eu Datganiadau o Ddiddordeb yn barod. Wedyn bydd datganiadau o ddiddordeb sy’n bodloni’r meini prawf yn cael eu datblygu’n geisiadau llawn, a fydd yn galluogi’r prosiect i fynd yn ei flaen.

13. Byddaf yn parhau i sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cael diweddariadau rheolaidd wrth i faterion ddatblygu, a byddaf yn darparu manylion pellach maes o law am yr amserlen ddisgwyliedig i fuddiolwyr ymgeisio am gymorth.

**Denu Cenhedlaeth Newydd o Ffermwyr**

14. Dros y degawdau diwethaf bu newidiadau mawr yn strwythur y diwydiant amaethyddiaeth, gydag ymdrechion i gynyddu cystadleurwydd sy’n golygu bod daliadau wedi cynyddu mewn maint ac wedi dod yn fwy arbenigol. O ganlyniad nid yw mor rhwydd i newydd-ddyfodiaid ymuno â’r diwydiant ac mae angen dod o hyd i ffyrdd o sicrhau symudedd yn y diwydiant.

15. Fe gomisiynais yr adroddiad Denu Cenhedlaeth Newydd o Ffermwyr gan Malcolm Thomas i nodi ffordd strategol ymlaen ar gyfer dyfodol y diwydiant ac i oleuo datblygiad y Rhaglen Datblygu Gwledig.

16. Fe gyhoeddais yr adroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2014. Mae’r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion allweddol i annog symudedd a chynyddu sgiliau yn y diwydiant ffermio.

17. Er mwyn sicrhau symudedd o fewn y diwydiant, mae'n hanfodol bwysig bod ein polisïau'n rhoi'r un faint o gymorth i adael y diwydiant ac ymuno ag ef. Er mwyn galluogi ffermwyr i adael y diwydiant, mae tystiolaeth yn awgrymu bod biwrocratiaeth, deddfwriaeth a threthiant yn rhwystrau. Cafodd materion trethiant a chyfraith tenantiaeth eu hadlewyrchu yn yr adolygiad Future of Farming ar ran Defra a gwblhawyd gan David Fursden. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio dylanwadu ar Drysorlys EM i ystyried a yw'r system drethiant bresennol yn amharu ar symudedd yn y diwydiant.

18. Y prif rwystrau sy'n cyfyngu ar fynediad i'r diwydiant yw argaeledd tir a mynediad at gyfalaf. Mae adroddiad Malcolm Thomas yn amlygu'r angen i'r Llywodraeth a'r diwydiant gydweithio i ymchwilio i gyfleoedd i gefnogi newydd-ddyfodiaid. Rwyf wedi gweld gwahanol fodelau ar gyfer mentrau ar y cyd â'm llygaid fy hun. Ceir rhai enghreifftiau ardderchog o'r modd y gall pobl ifanc ymuno â'r diwydiant heb y gwariant cyfalaf enfawr sy'n gysylltiedig â phrynu tir.

19. Mae'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a minnau wedi cyhoeddi cynllun gweithredu ar y ddarpariaeth ddysgu gan golegau addysg bellach – a pherthnasedd hynny i fusnesau fferm. Mae angen inni barhau i ddatblygu a chadw sgiliau o fewn y sector i sicrhau llwyddiant ein diwydiant amaethyddiaeth yn y dyfodol.

20. Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant ar hyn o bryd trwy Grŵp Rhanddeiliaid y Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r diwydiant gan gynnwys undebau ffermwyr, CFfI Cymru ac elusennau ffermio. Rydym yn dymuno canfod ffyrdd newydd o roi cymorth i bobl ifanc a newydd-ddyfodiaid ymuno â'r diwydiant, gan gynnwys cymorth y gallwn ei roi ar waith trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

**Ffermio llaeth**

21. Byddaf yn parhau i sefyll o blaid ein sector llaeth pwysig a phwysigrwydd helpu ffermwyr yng Nghymru i fanteisio ar gyfleoedd i allforio. Roeddwn yn bresennol yng Nghyngor Amaeth a Physgodfeydd yr UE ym Mrwsel ar 26 Ionawr fel rhan o Ddirprwyaeth Weinidogol y DU. Roeddwn yn falch fy mod wedi sicrhau yn ystod y Cyngor bod natur fregus rhai o ffermydd llaeth Cymru'n cael ei chrybwyll yn benodol.

22. Mae'r diwydiant llaeth yn mynd trwy gyfnod o newid gydag amodau anodd yn y farchnad a achosir gan effeithiau marchnadoedd byd-eang. Gyda chynhyrchiant llaeth yn dal i fod yn uwch na lefelau'r llynedd, bydd angen datblygu marchnadoedd newydd ar gyfer stociau caws a llaeth neu droi cyflenwadau llaeth yn gynnyrch llaeth o fath arall. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon rhyngwladol hirdymor ar gyfer ffermio llaeth yn gadarnhaol, fel a gytunwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd.

23. Rhoddwyd sylw sylweddol hefyd i'r oedi diweddar gyda thaliadau gan First Milk. Cyn gynted ag y clywais am y penderfyniad gofynnais am gael cwrdd â'r Cadeirydd, Syr Jim Paice, i gael deall yn well sut yr oedd y sefyllfa anodd honno wedi codi. Roeddwn am fy argyhoeddi fy hun bod First Milk yn gwneud popeth posibl i'w roi ei hun yn ôl ar sylfaen gadarn. Mae First Milk wedi gwneud ymrwymiad ers hynny na fydd yn gostwng y pris y mae'n ei dalu i ffermwyr ym mis Mawrth. Rwyf wedi trefnu i Cyswllt Ffermio, ein gwasanaeth cymorth a chyngor i ffermwyr yng Nghymru, gydweithio'n agos gyda DairyCo yng Nghymru i ddarparu pecyn cyflenwol o gymorth yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn.

24. Mae fy adolygiad o'r sector llaeth, sy'n cael ei arwain gan Andy Richardson o Dasglu Llaeth Cymru, yn amserol felly. Rwy'n disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror. Bydd yr adolygiad yn tynnu ar y gwaith a wnaed eisoes gan y Tasglu Llaeth ond bydd yn bwrw golwg ehangach, gan gymryd safbwyntiau gan bob elfen o'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru.

25. Bydd yn ystyried sut y gall y Llywodraeth a'r diwydiant gydweithio i gefnogi'r sector yng Nghymru a bydd yn ystyried pa gymorth y gall y Rhaglen Datblygu Gwledig ei roi i ffermwyr llaeth a'r sector prosesu llaeth yng Nghymru. Bydd yr adolygiad yn rhoi sylw i'r materion penodol sy'n ymwneud â chyfnewidioldeb prisiau llaeth ac yn ystyried a oes mecanweithiau (cyfreithiol a gwirfoddol) a allai roi pris llaeth mwy sefydlog wrth gât y fferm.

26. I'r perwyl hwnnw, rwyf wedi cwrdd yn ddiweddar â'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ffermio, Bwyd a'r Amgylchedd Morol, George Eustice AS, ac wedi ysgrifennu ato i gefnogi'r Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd. Rwy'n pryderu ynghylch cyndynrwydd y diwydiant i hysbysu'r Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd yn ffurfiol ynghylch unrhyw achosion o dorri'r Cod Ymarfer Cyflenwi Bwydydd a byddaf yn parhau i erfyn ar y diwydiant i ddod ymlaen fel y gellir lansio ymchwiliadau ffurfiol. Rwyf am weld y trefniadau gorau posibl ar gyfer gweithrediad y gadwyn gyflenwi yng Nghymru a sicrhau bod cynhyrchwyr cynradd yn cael eu diogelu a sicrhau tegwch yn y gadwyn gyflenwi fusnes.

27. Rwy'n falch felly bod mesurau wedi cael eu cyflwyno yn y Senedd yn ddiweddar a fydd yn rhoi pwerau i'r Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd roi dirwyon i archfarchnadoedd y DU am dorri'r Cod Ymarfer Cyflenwi Bwydydd. Mae hwn yn un pŵer y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn pwyso amdano ers y dechrau un. Mae'r materion diweddar yn y diwydiant llaeth wedi amlygu'r angen i sicrhau bod y farchnad yn cael ei monitro a'i chefnogi'n gywir.

**Ffermio organig**

28. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gefnogi'r sector organig yng Nghymru. Mae'n cyflawni rôl bwysig yn niwydiant amaethyddol Cymru gan y gall ychwanegu gwerth at ein cynnyrch, tra bo arferion organig yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd amgylcheddol gwell.

29. Glastir Organig yw'r pecyn cymorth cyntaf dan y Rhaglen Datblygu Gwledig newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain y ffordd o ran cefnogi'r sector organig yn y DU. Ni oedd y cyntaf i gynnig estyniad i bontio cymorth o'r Rhaglen Datblygu Gwledig flaenorol a ni yw'r cyntaf yn awr i ymrwymo i roi cymorth yn 2015.

30. Bydd Glastir Organig yn rhoi cymorth ariannol i ffermwyr a chynhyrchwyr organig i gydnabod y gwasanaeth amgylcheddol y maent yn ei ddarparu ar gyfer Cymru. Mae systemau ffermio organig yn gweithio gyda natur i gynnal ffrwythlondeb y pridd a rheoli plâu a chlefydau. Mae hyn yn diogelu ein hafonydd, bywyd gwyllt a phryfed peillio. Bydd cymorth ar gael i gynhyrchwyr organig presennol barhau i ffermio'n organig ac i'r rhai sy'n addasu tir o arferion ffermio confensiynol i arferion organig. Agorodd Glastir Organig broses ar gyfer ceisiadau ar-lein ar 1 Hydref ac fe gaeodd y broses ar 29 Hydref 2014, gan arwain at 467 o gytundebau Glastir Organig.

31. Mae'r cynllun newydd yn dangos ein hymrwymiad i ffermwyr a chynhyrchwyr organig, gan roi hyder i'r sector organig newydd yng Nghymru allu parhau i ffermio'n organig a denu ffermwyr confensiynol i droi'n ffermwyr organig.

**Organeddau a Addaswyd yn Enetig (GMO)**

32. Rwyf wedi datgan yn eglur beth yw ein polisi ar Organeddau a Addaswyd yn Enetig (GMO). Rydym yn parhau i fod ag ymagwedd gyfyngol a rhagofalus tuag at dyfu cnydau GMO.

33. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r bleidlais ddiweddar gan yr Undeb Ewropeaidd i ganiatáu i Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau wneud penderfyniadau cenedlaethol o ran pa un a ydynt yn dymuno gwahardd ynteu dyfu cnydau GM yn eu tiriogaethau. Mae hyn yn golygu y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu mynnu bod y defnydd o GM yn cael ei gyfyngu fel nad yw Cymru'n cael ei chynnwys, gan felly ein galluogi i reoli'r arfer o dyfu cnydau GM yng Nghymru yn y dyfodol.

34. Byddai gennym opsiynau pellach hefyd i gyfyngu ar dyfu cnydau GM neu wahardd hynny, gan gynnwys pethau megis polisi amgylcheddol neu amaethyddol, effeithiau economaidd-gymdeithasol, polisi cyhoeddus neu osgoi sefyllfa lle mae deunyddiau a addaswyd yn enetig yn halogi cynhyrchion eraill. Rydym wedi bod yn ymgyrchu am nifer o flynyddoedd dros gynnwys materion economaidd-gymdeithasol fel ffactorau pwysig wrth ystyried cymeradwyaeth i gnydau GM ac rwy'n falch bod y rhain bellach yn cael eu cydnabod yn ffurfiol. Bydd y datblygiad hwn yn ein helpu i gyflawni ein polisi.

35. Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig yn ddiweddar sy'n cynnwys mwy o fanylion am benderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd a'i oblygiadau i Gymru.

**Iechyd a Lles Anifeiliaid**

36. Roedd lefel y gwariant gan Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol hyd at ddiwedd Rhagfyr 2014 mewn perthynas â gweithredu polisi a deddfwriaeth lles anifeiliaid yn 2014/15 yn £214,422. Amcangyfrifir y bydd yr alldro ar ddiwedd 2014/15 yn £297,899.

37. Fis Gorffennaf diwethaf roeddwn yn falch o lansio Fframwaith Iechyd Anifeiliaid Cymru. Gweledigaeth eang y Fframwaith yw ein bod yn cydweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant er mwyn inni allu parhau i godi safonau iechyd a lles anifeiliaid a dangos cynnydd. Mae Grŵp y Fframwaith, sy'n cynnwys chwe aelod a benodwyd yn gyhoeddus, yn y broses o nodi'r blaenoriaethau a themâu allweddol y bwriedir canolbwyntio arnynt dros y blynyddoedd sydd i ddod. Bydd y rhain yn cael eu nodi mewn cyfres o gynlluniau cyflawni, y bydd y cyntaf ohonynt yn cael ei gyhoeddi'r haf nesaf.

38. Er mwyn cyflawni ein polisïau'n effeithiol mae'n hanfodol bwysig ein bod yn ystyried ein hanghenion milfeddygol a'r seilwaith ategol yn y dyfodol. Rhaid i hyn fod wedi'i alinio ag anghenion Cymru a dylai adeiladu ar y bartneriaeth sy'n tyfu rhwng y Llywodraeth a'r sector preifat. Rwy'n croesawu'r newyddion bod dau gontract wedi cael eu dyfarnu ar gyfer profion TB a gwasanaethau milfeddygol eraill i bractisiau milfeddygol yng Nghymru. O fis Ebrill bydd yr holl waith profion TB newydd a gwaith Milfeddyg Swyddogol arall yng Nghymru'n cael ei wneud gan ddau gyflenwr rhanbarthol, Menter a Busnes yng Ngogledd Cymru ac Iechyd Da (Gwledig) Ltd yn y de.

39. Bydd y rhain yn gyfrifol am ddyrannu milfeddygon a sicrhau bod profion yn cael eu cwblhau i'r safon ofynnol. Mae hyn yn newyddion da i Gymru ac yn enwedig i'r darparwyr gwasanaethau milfeddygol llwyddiannus hynny yng Nghymru a fydd yn gonglfaen bwysig i'r Rhaglen Dileu TB. Bydd y contractau hyn hefyd yn cynyddu gallu a galluedd milfeddygol sy'n hanfodol i ymdrin ag unrhyw achos o glefyd egsotig mewn anifeiliaid yn y dyfodol, gan gynnal gwerth am arian ar yr un pryd.

40. Mae gwyliadwriaeth yn hanfodol, fel a ddangoswyd yn dilyn y ddau achos o ffliw adar yn Lloegr. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos gyda Defra a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), ac yn chwarae rhan lawn yn y trefniadau ar gyfer cynlluniau wrth gefn. Mae gan y Llywodraeth hanes da o reoli a gwaredu achosion o glefydau adar yn y DU ac mae'r cynlluniau angenrheidiol ar waith gennym i ymdrin â digwyddiad tebyg, pe bai un yng Nghymru.

41. Fel rhan o'n gwaith i adolygu prosiect Gwyliadwriaeth 2014 yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, mae Canolfan Ymchwiliadau Milfeddygol Caerfyrddin yn cael ei datblygu fel canolfan arbenigedd ar gyfer Da Byw a Ffermir yn Ddwys. Hefyd bydd gwasanaeth casglu ysgerbydau anifeiliaid yn cael ei sefydlu i wasanaethu Cymru, gyda chymhorthdal gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion am 3 blynedd. Mae Iechyd Da yn bwriadu datblygu Canolfan Ymchwiliadau Milfeddygol Aberystwyth ar gyfer gwasanaethau archwiliadau post-mortem a phrofion labordy i bractisiau milfeddygol lleol.

42. Rydym yn parhau â'n gwaith ar y Cynllun Dileu TB ledled Cymru. Mae sawl elfen i'n dull o weithio sy'n cynnwys profion blynyddol, mentrau megis Cymorth TB a'r gwaith yn yr Ardal Triniaeth Ddwys gan gynnwys y prosiect brechu moch daear lle'r ydym newydd gwblhau ein trydedd flwyddyn o frechu a bellach yn paratoi ar gyfer y bedwaredd flwyddyn. Yn tanategu hyn mae'r gwaith epidemioleg TB sy'n cael ei wneud ac sy'n ein helpu i wella ein dealltwriaeth am y darlun o ran y clefyd ledled Cymru. Mae'r ystadegau diweddar yn galonogol gan eu bod yn dynodi bod y Rhaglen Dileu TB yn gwneud gwahaniaeth.

43. Mae lefel y gwariant hyd at ddiwedd mis Ionawr ar y Rhaglen Dileu TB yn 2014/15 yn £3,686,112. Amcangyfrifir y bydd yr alldro ar ddiwedd 2014/15 yn £5.1m.

44. Mae hybu safonau uchel o ran lles anifeiliaid yn ystyriaeth allweddol ar gyfer yr holl anifeiliaid a gedwir. Mae ein blaenoriaethau yn y maes hwn ar hyn o bryd yn ymwneud â chynnal a gwella da byw a chydymffurfio â rheolau Ewropeaidd yn unol â'n rôl stiwardiaeth a'n cyfrifoldebau tuag at anifeiliaid. Ymhlith pethau eraill mae hyn yn cynnwys meysydd megis lles anifeiliaid ar adeg eu cyflwyno i'r lladd-dy, ac ar gyfer anifeiliaid anwes mae ymdrechion yn cael eu cyfeirio tuag at bolisi o berchnogaeth gyfrifol. Mae gan bron hanner yr holl aelwydydd yng Nghymru – 43% - anifail anwes, ac un ci neu fwy yw'r math mwyaf cyffredin.

**Strategaeth ffermio**

45. Rwy'n awyddus i ddatblygu strategaeth amaethyddiaeth sy'n nodi'n eglur sut y byddwn yn meithrin diwydiant amaethyddiaeth hyderus, cadarn a phroffidiol yng Nghymru sy'n diogelu ac yn gwella ein hadnoddau naturiol, yn cyflawni twf cynaliadwy, ac yn cefnogi cymunedau gwledig ffyniannus. Byddwn yn sefydlu diwydiant amaethyddiaeth hyderus, cadarn a phroffidiol yng Nghymru.

46. Bydd y strategaeth yn hanfodol i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn datblygu cynllun gweithredol a chynhwysol a fydd yn rhoi cymorth i'r diwydiant reoli ein hadnoddau naturiol yn dda, helpu busnesau fferm i adeiladu ar eu llwyddiannau a chefnogi'r economi wledig, a chwarae rhan weithredol yn y gwaith o sicrhau iechyd anifeiliaid a safonau uchel o ran lles anifeiliaid**.**

47. Un ffactor allweddol yn llwyddiant y strategaeth hon fydd cael derbyniad ar draws y sector a dyna pam ein bod wedi cynnwys rhanddeiliaid allweddol y diwydiant o'r dechrau un. Mae arnom angen gweledigaeth gynhwysol, flaengar a chynaliadwy sy'n her ond

sy'n cael ei gosod mewn ffordd sy'n golygu bod y diwydiant amaethyddiaeth, y Llywodraeth, partneriaid cyflawni, rhanddeiliaid ac unigolion oll yn gallu ei chefnogi.

48. Byddwn yn sefydlu strwythurau llywodraethu effeithiol i gefnogi'r strategaeth a byddwn hefyd yn defnyddio mecanweithiau cyflawni presennol i sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, ein bod yn defnyddio dull sy'n effeithlon ac yn seiliedig ar synnwyr cyffredin. Rwy'n disgwyl bod â chynlluniau gweithredu manwl i gefnogi a monitro ein llwyddiant wrth weithredu'r Strategaeth.

**Rebecca Evans AC**
**Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**
**Chwefror 2015**

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/CS/0395/15

Alun Ffred Jones AS
Cadeirydd Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

12th Chwefror 2015

Annwyl Alun,

Diolch am eich llythyr ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i dlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni a'r cais am eglurhad ar nifer o faterion.

Os gwelwch yn dda ddod o hyd ynghlwm ymateb i'r cwestiynau a godwyd yn eich llythyr.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Ymateb i gais yr ymchwiliad i dlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni yng Nghymru am ragor o wybodaeth.**

**Strategaeth Tlodi Tanwydd**

Dadleuodd nifer o randdeiliaid yn eu tystiolaeth lafar a'u tystiolaeth ysgrifenedig am gael adolygiad o Strategaeth Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2010 i adlewyrchu'r datblygiadau a'r newidiadau diweddaraf yn yr hinsawdd economaidd.

- Byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i gynnal adolygiad o'r Strategaeth Tlodi Tanwydd.

**Ymateb**

Cyhoeddwyd Strategaeth Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru yn 2010 ac roedd yn nodi'r camau gweithredu allweddol y byddem yn eu cymryd o fewn ein pwerau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae'r dull o weithredu a nodir yn y Strategaeth yn dal i fod yn ddilys.

Mae'r camau gweithredu allweddol yn cynnwys darparu gwasanaethau cyngor a chymorth o safon ac wedi'u cydgysylltu'n dda i helpu pob deiliad tŷ i leihau ei filiau tanwydd a gwneud y mwyaf o'i incwm, darparu rhaglenni sy'n seiliedig ar alw ac ardal i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi, a thargedu'r rhaglenni hyn at yr aelwydydd sydd â'r angen mwyaf ac sy'n byw yn y cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni.

Rydym yn canlyn arni â'r camau gweithredu hyn trwy gyflawni ein rhaglen effeithlonrwydd ynni. Mae ein ffocws yn awr ar sicrhau bod y rhaglen yn parhau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd a'n bod yn ystyried unrhyw newidiadau ar lefel y DU i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i Gymru.

Cyhoeddwyd y Strategaeth Tlodi Tanwydd cyn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi ond rydym wedi sicrhau bod ein camau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun a bod tlodi tanwydd yn cael ei ystyried ochr yn ochr â chamau gweithredu ehangach i drechu tlodi.

Er nad oes gennyf gynlluniau ar hyn o bryd i adolygu'r Strategaeth Tlodi Tanwydd, byddaf yn cadw hyn dan ystyriaeth.

**Grŵp Cynghori'r Gweinidog**

Galwodd y rhanddeiliaid hefyd am ailsefydlu Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Dlodi Tanwydd, gan ddadlau bod y Grŵp wedi rhoi cyfle pwysig i'r sector gwirfoddol, cyrff

hawliau defnyddwyr, cynghorwyr a chwmnïau ynni drafod materion a darparu tystiolaeth gadarn er mwyn tanategu strategaeth Llywodraeth Cymru. Byddem yn ddiolchgar pe gallech:

- Egluro pam y gwnaed y penderfyniad i ddiddymu Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Dlodi Tanwydd;
- Nodi, yn sgil y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor, a fyddech yn fodlon ailystyried y penderfyniad hwn ac os felly, a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried y modelau gwahanol a ddefnyddir ar hyn o bryd ledled y DU a'r gwersi sydd wedi'u dysgu ohonynt.

**Ymateb**

Cafodd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Dlodi Tanwydd ei ddiddymu gan Gyn-Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ym mis Tachwedd 2011. Roedd y grŵp wedi bodoli, ar sawl ffurf, am wyth mlynedd.

Roedd y grŵp yn rhoi cyngor cyfyngedig i'r Gweinidog y tu hwnt i'r wybodaeth a oedd eisoes yn cael ei darparu gan randdeiliaid eraill ac nid oedd yn cynnig cyngor ychwanegol nad oedd eisoes ar gael o ffynonellau eraill. Ychydig o werth ychwanegol oedd i'r grŵp.

Cafodd y penderfyniad i ddiddymu'r grŵp ei wneud yn dilyn ystyriaeth ofalus a chafodd ei wneud yng ngoleuni sefydlu'r Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi sy'n rhoi'r cyfle i unioni tlodi tanwydd yn llawn â chamau gweithredu ehangach gan y Llywodraeth i drechu tlodi.

Caiff y Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi ei arwain gan Gadeirydd annibynnol ac mae ganddo gynrychiolydd ar gyfer tlodi tanwydd. Mae nifer o'r sefydliadau a arferai gael eu cynrychioli ar Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Dlodi Tanwydd yn cael eu cynrychioli ar y Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi.

Ni fyddaf yn adfer Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Dlodi Tanwydd. Credaf fod yn rhaid i gamau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd fod yn rhan o gamau gweithredu ehangach ar draws Llywodraeth Cymru i drechu tlodi a byddaf yn ceisio cyngor arbenigol, pan fo angen, gan y Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi.

**Nyth ac Arbed**

Cafodd ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i ariannu'r ddau gynllun ei gymeradwyo gan yr holl randdeiliaid, ond nodwyd rhai ffyrdd y gellid gwella'r cynlluniau hyn yn y dyfodol.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech:

- Egluro pam mae Nyth wedi cyrraedd llai o gartrefi na'r cynllun blaenorol.
- Nodi a fydd datblygu strategaeth effeithlonrwydd ynni newydd Llywodraeth Cymru yn:
    - Adolygu'r trefniadau monitro ar gyfer Nyth ac Arbed er mwyn adrodd yn well ar y rheini mewn tlodi tanwydd cyn ac ar ôl gosod y mesurau;
    - Ystyried defnydd ehangach defnyddwyr o 'hunangofnodi'; ac
    - Ystyried effeithiolrwydd y cynlluniau cyfredol o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig a sut y gellid gwella hyn.

**Ymateb**

Nid yw Nyth wedi cyrraedd llai o gartrefi na’r cynllun blaenorol, y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Yn ei dair blynedd gyntaf, mae Nyth wedi cyrraedd bron i 19,000 o gartrefi y flwyddyn ar gyfartaledd, sy’n gyson â’r blynyddoedd gorau o berfformiad a gafwyd gyda’r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Fodd bynnag, dylid cydnabod bod Nyth a’r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn ddau gynllun gwahanol iawn sy’n darparu lefelau gwahanol iawn o gymorth ar gyfer aelwydydd gwahanol.

Roedd y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref wedi’i fwriadu i ddarparu datrysiadau cost isel megis atgyweirio boeleri, mesurau sylfaenol i inswleiddio ac atal drafftiau a, lle’r oedd angen, systemau gwresogi newydd a hynny ar gyfer aelwydydd a oedd yn derbyn rhai budd-daliadau, a deiliaid tai oedrannus heb system wresogi a oedd yn gweithio. Mewn rhai blynyddoedd yn ystod y cynllun, roedd larymau mwg a mesurau diogelwch ar gael hefyd i ddeiliaid tai oedrannus. Roedd lefelau grant gwahanol yn cael eu cynnig i aelwydydd, a’r rheiny’n amrywio o £500 i £5,000, gan ddibynnu ar oedran yr ymgeisydd, ei amgylchiadau a’r math o danwydd. Lle’r oedd cost y gwaith yn fwy na’r grant roedd yn ofynnol i’r deiliad tŷ gyllido’r gwahaniaeth cyn y gellid bwrw ymlaen â’r gwaith. Roedd asesiadau Gwirio Hawl i Fudd-daliadau yn cael eu cynnig i ymgeiswyr nad oeddent yn cwrdd â’r meini prawf cymhwystra ond nid oedd system yn bodoli i atgyfeirio ymgeiswyr at gyngor neu gymorth arall. Nid oedd y meini prawf cymhwystra ar gyfer y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn ei gwneud yn ofynnol i’r holl aelwydydd fod ar incwm isel ac amcangyfrifwyd fod llai na 30 y cant o’r aelwydydd a gafodd welliannau dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref mewn tlodi tanwydd.

Roedd Nyth wedi’i fwriadu i roi mynediad i’r holl aelwydydd at amrywiaeth o gyngor a chymorth i leihau eu biliau ynni a gwneud y gorau o’u hincwm, gan gynnwys Gwirio Hawl i Fudd-daliadau, rheoli dyledion ac arian, cyngor ynghylch arbed ynni, tariffau ynni ac atgyfeirio ar gyfer Disgownt Cartrefi Cynnes. Hefyd, mae ymgeiswyr cymwys yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer pecyn o welliannau o ran ynni yn y cartref, a gynigir heb gost i’r deiliad tŷ. Mae ystod ehangach o fesurau gwresogi ac inswleiddio ar gael nag o dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, gan gynnwys mesurau cost uchel

megis Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer, Biomas, ac Inswleiddio Wal Allanol. Mae'r lefelau grant yn uwch gyda hyd at £12,000 ar gyfer cartref nad yw ar y rhwydwaith nwy, i gydnabod y costau uwch sy'n gysylltiedig â gwella cartrefi anodd i'w gwresogi, a hyd at £8,000 ar gyfer cartref sydd ar y rhwydwaith nwy. Mae'r meini prawf cymhwystra ar gyfer Nyth wedi'u bwriadu i ganolbwyntio ar aelwydydd incwm isel sy'n byw yn y cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni, ac amcangyfrifir bod 60 y cant o'r aelwydydd sy'n cael gwelliannau dan y cynllun Nyth yn byw mewn tlodi tanwydd.

Bydd strategaeth effeithlonrwydd ynni newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru yn ystyried yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer cynyddu effeithlonrwydd ynni ar draws pob sector; y sector domestig, y sector busnes a'r sector cyhoeddus. Bydd yn ystyried rôl Llywodraeth Cymru o ran llywio'r agenda yn ogystal â rôl sefydliadau eraill, busnesau ac aelwydydd eu hunain. Bydd yn nodi ein gweledigaeth a'n dull strategol ond ni fydd yn manylu ar weithrediad mecanweithiau cyflawni unigol.

Fodd bynnag, mae gweithrediad Nyth ac Arbed yn cael ei adolygu'n gyson ac mae gwerthusiadau llawn o'r ddwy raglen yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Mae ein rhaglenni Nyth ac Arbed yn cofnodi'r gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni a wneir i bob eiddo gan ddefnyddio dull safonol y diwydiant rdSAP. Fodd bynnag, ceir cyfyngiadau o ran i ba raddau y gallwn fonitro, ar sail aelwyd unigol, yr effaith fanwl ar dlodi tanwydd sy'n deillio o welliannau o ran ynni a osodir dan ein rhaglenni effeithlonrwydd ynni. Mae'r cyfyngiadau hyn yn cynnwys:

- anawsterau a chostau coladu data ynghylch incwm aelwydydd a defnydd hanesyddol ar gyfer pob aelwyd,
- y realiti y gall amgylchiadau aelwydydd gan gynnwys incwm yr aelwyd newid yn aml,
- amlder y codiadau mewn prisiau ynni,
- y ffaith y gall preswylwyr, i raddau amrywiol, ddefnyddio'r gwelliannau i ddwyn manteision o ran cyfforddusrwydd a diogelu iechyd i'w cartrefi yn hytrach na gostwng eu gwariant ar danwydd,
- cost gwneud gwaith monitro eang, yn enwedig astudiaethau hydredol, o'i gymharu â'r manteision a geir yn sgîl hynny, ac effaith ganlyniadol monitro o'r fath ar aelwydydd, y mae rhai ohonynt yn arbennig o agored i niwed.

Bydd y gwerthusiad o Arbed 2 yn cynnwys cyswllt â sampl isafswm o 10 y cant o'r aelwydydd a chynnal adolygiad ar ôl gosod. Bydd hyn yn golygu cysylltu drachefn â'r aelwydydd a ddarparodd ddata fel rhan o'r gwerthusiad cychwynnol o'r cynllun i gynnal asesiad pellach o effaith y mesurau effeithlonrwydd ynni a osodwyd a'r cyngor a ddarparwyd. Bydd hyn nid yn unig yn ystyried yr ynni sy'n cael ei arbed trwy ddefnydd mwy effeithlon, ond bydd hefyd yn ystyried i ba raddau y mae deiliaid tai yn fwy cyfforddus yn eu cartref. Byddwn yn ystyried effeithiolrwydd y dull hwn ar gyfer sampl o aelwydydd a gafodd gymorth a pha un a ddylid ei ddefnyddio mewn camau gweithredu yn y dyfodol dan ein rhaglen effeithlonrwydd ynni.

Nid yw'n gwbl eglur at beth y mae'r Pwyllgor yn cyfeirio yn y cwestiwn ynglŷn â 'hunangofnodi'; os mai cwestiwn ydyw ynglŷn â threfniant lle mae'r rhai sy'n cael cymorth yn adrodd ar ei effaith hirdymor, yna mae swyddogion yn credu y byddai diffyg sicrwydd a natur anrhagweladwy dull adrodd o'r fath yn dwyn heriau.

Mae'r cynlluniau cyfredol wedi bod yn effeithiol hyd yma o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig ond fe ofynnaf i swyddogion barhau i adolygu hyn ac archwilio pa un a ellid gwneud gwelliannau mewn unrhyw gynlluniau yn y dyfodol. Un o amcanion allweddol y cynllun Nyth yw sicrhau bod cymorth ar gael i aelwydydd mewn ardaloedd gwledig nad ydynt ar y rhwydwaith nwy sy'n wynebu biliau ynni uwch, costau uwch i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, ac felly lefelau uwch o dlodi tanwydd. Gan gydnabod y costau uwch a wynebir gan yr aelwydydd hyn, mae Nyth yn darparu cyllid gan Lywodraeth Cymru hyd at uchafswm uwch ar gyfer cartrefi unigol mewn ardaloedd gwledig nad ydynt ar y rhwydwaith nwy (£12,000) nag ar gyfer cartrefi mewn ardaloedd trefol sydd ar y rhwydwaith nwy (£8,000).

Mae Nyth yn mynd ati mewn ffordd weithredol i dargedu aelwydydd cymwys mewn ardaloedd gwledig ac yn nhair blynedd gyntaf ei weithrediad, roedd dros 4,800 o'r 13,400 o gartrefi a gafodd eu gwella wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol sy'n wledig yn bennaf. Cafodd dros 600 o'r cartrefi hyn becyn o welliannau a oedd yn cynnwys eu cysylltu â'r rhwydwaith nwy.

O dan ein cynlluniau sy'n seiliedig ar ardaloedd rydym wedi pennu meini prawf ar gyfer awdurdodau lleol sy'n blaenoriaethu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. O dan Arbed 2 rydym yn rhoi blaenoriaeth i'r ardaloedd incwm isel hynny sydd â nifer uchel o gartrefi nad ydynt ar y rhwydwaith nwy neu sy'n anodd i'w trin. Hyd yma, mae Arbed 2 wedi darparu 32 o gynlluniau mewn 19 o'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru. O'r rhain, roedd 7 yn rhai nad oeddent ar y rhwydwaith nwy ac mewn 4 cafodd y brif bibell nwy ei hymestyn i mewn i'w cymuned gyda 482 o gartrefi'n cael cysylltiadau newydd.

**Cydlyniant rhwng cynlluniau a chyrff darparu**

Yr angen am gydlyniant gwell rhwng cynlluniau Llywodraeth Cymru a chynlluniau eraill ledled y DU, fel y cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) a gafodd ei chrybwyll gan lawer o'r cwmnïau ynni, y cymdeithasau tai a NEA Cymru. Roedd cymdeithasau tai yn croesawu'r cyfleoedd a ddarparwyd gan ECO Arbed i gyfuno cyllid cynlluniau Llywodraeth Cymru a chynlluniau'r DU.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech:

- Nodi a fydd datblygu strategaeth effeithlonrwydd ynni newydd Llywodraeth Cymru yn:

- Adolygu'r cydlyniant rhwng cynlluniau Llywodraeth Cymru a chynlluniau eraill y DU a sut y gellid gwella hyn;
- Ystyried capasiti awdurdodau lleol i ddarparu'r cynlluniau hyn a sut y gellid gwella hyn; a'r
- Prosesau caffael a ddefnyddir yn y cynlluniau hyn.

**Ymateb**

Bydd strategaeth effeithlonrwydd ynni newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru yn ystyried yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer cynyddu effeithlonrwydd ynni ar draws pob sector; y sector domestig, y sector busnes a'r sector cyhoeddus. Bydd yn ystyried rôl Llywodraeth Cymru o ran llywio'r agenda yn ogystal â rôl sefydliadau eraill, busnesau ac aelwydydd eu hunain. Bydd yn ystyried pa gamau gweithredu y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd yng nghyd-destun camau gweithredu ehangach ar lefel y DU o ran effeithlonrwydd ynni a sut ar y cyfan y gallwn weithio ochr yn ochr â gweithgarwch ar lefel y DU. Fodd bynnag, ni fydd yn manylu ar weithrediad cynlluniau unigol ar lefel Cymru a'r DU, yn enwedig gan ein bod yn debygol o weld newid parhaus i'r cynlluniau hynny.

Mae cydlyniant rhwng cynlluniau Llywodraeth Cymru a chynlluniau ar gyfer y DU gyfan yn cael ei adolygu'n barhaus ac mae fy swyddogion yn aros gyfuwch â datblygiadau mewn cynlluniau ar lefel y DU, megis ECO, gan gynnal cyswllt rheolaidd â Llywodraeth y DU a'r cwmnïau ynni. Mae'r newidiadau sylweddol a wnaed gan Lywodraeth y DU i ECO, ochr yn ochr â newidiadau parhaus gan gwmnïau ynni i'w dull o gyflawni ECO, wedi ei gwneud yn her, yn enwedig dros y 12 mis diwethaf, plethu cynlluniau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull hyblyg ac mae'n cynnal trafodaethau rheolaidd gyda rheolwyr cynlluniau Nyth ac Arbed ynghylch sut orau y gall y cynlluniau weithio ochr yn ochr â chynlluniau Llywodraeth y DU. Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i Arbed 2, gyda chytundeb Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, i sicrhau bod y cynllun yn gallu defnyddio buddsoddiad o ECO ochr yn ochr â chyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a chan Lywodraeth Cymru. Lle mae Nyth yn y cwestiwn, mae swyddogion yn cwrdd yn fisol ac yn chwarterol gyda rheolwr y cynllun, Nwy Prydain, ac yn trafod yn rheolaidd sut i ysgogi buddsoddiad ECO ar gyfer y cynllun.

Yn unol â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae rhaglen effeithlonrwydd ynni Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu nid dim ond lleihau carbon ond trechu tlodi a chreu twf a swyddi. Mae'r rhaglen yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddwyn manteision lluosog, megis swyddi, hyfforddiant, budd i'r gymuned ac ymgysylltiad effeithiol at aelwydydd ochr yn ochr â darparu mesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi. Mae model darparu Arbed a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn hyn o beth. Mae wedi bod yn her plethu ein safonau uchel o ran y gofynion hyn â chyflawni ECO, lle mae'r ffocws yn gyfan gwbl ar sicrhau'r gyfradd

orau am bob tunnell o garbon a arbedir, ac sy’n cael ei sbarduno’n gynyddol gan awydd ar ran cwmnïau ynni i gyflawni ECO trwy eu mecanweithiau cyflawni eu hunain, sy’n annhebygol o ddwyn y manteision lluosog i gymunedau a’u heconomïau lleol y gwyddom y gellid eu cyflawni yng Nghymru.

O ran datblygu capasiti awdurdodau lleol, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd bord gron rheolaidd gydag awdurdodau lleol i drafod a chynllunio rhaglenni effeithlonrwydd ynni. Mae’r cyfarfodydd yn fforwm agored lle mae cyfleoedd, syniadau ac enghreifftiau o arfer gorau yn cael eu cynnig. Roedd y cyfarfod diweddaraf yn cynnwys sesiynau ar Offeryn Budd i’r Gymuned Gwerth Cymru, cyflwyno mesuryddion deallus, caffael a datblygu’r strategaeth effeithlonrwydd ynni. Mae swyddogion hefyd wedi darparu nifer o ddigwyddiadau ar gyfer awdurdodau lleol ledled Cymru i hyrwyddo’r cynllun grant sydd ar gael, ac ar ôl y digwyddiadau hyn mae ymweliadau wedi bod yn cael eu cynnal â’r awdurdodau i roi cyngor pwrpasol ynghylch dylunio cynlluniau a drafftio eu ceisiadau. Mae ychydig o awdurdodau heb fanteisio ar y gwasanaeth hwn ond mae wedi parhau i gael ei gynnig. Hefyd, rwyf wedi trefnu bod cyllid refeniw ar gael i awdurdodau lleol gynyddu eu capasiti i reoli cynlluniau effeithlonrwydd ynni sy’n seiliedig ar ardaloedd a darparu’r buddion lluosog yr ydym yn dymuno’u cyflawni trwy ein rhaglen.

Mae swyddogion yn ymwybodol bod rhai awdurdodau lleol yn cael anhawster gyda phrosesau caffael o ystyried y graddfeydd amser a chymhlethdod y gwaith effeithlonrwydd ynni sy’n gysylltiedig â hwy. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac yn cydymffurfio â’u polisïau caffael mewnol hwy eu hunain. Mae fy swyddogion yn ystyried pa drefniadau ellir eu gwneud i gefnogi prosesau caffael yn y dyfodol. Mae rhaglen Arbed 2 wedi bod yn gosod safon o ran yr hyn y gellir ei gyflawni, gyda lluosydd sy’n golygu adenillion hyd at £2 i economi Cymru am bob £1 a gaiff ei buddsoddi yn y rhaglen, fel a fesurwyd gan Offeryn Mesur Budd i’r Gymuned Gwerth Cymru. Yn ogystal â hyn, enillodd un o reolwyr cynllun Arbed 2 (Cartrefi Melin) y wobr Caffael Arloesol yng Ngwobrau Tai Cymru yn 2014 ac enillodd MBCh ar un o’r fframweithiau (Gibson STS) y Wobr Cydweithio ym maes Caffael/Tendro yng Ngwobrau Caffael Cymru 2014. Rhoddwyd y ddwy wobr hon yn gydnabyddiaeth am y gwaith da a wnaed dan Arbed.

**Data**

Soniodd y rhanddeiliaid am faterion ynghylch argaeledd data cyfredol am stoc tai Cymru a chydlynu'r data am y rheini mewn tlodi tanwydd er mwyn targedu cynlluniau'n fwy effeithiol.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech:

- Nodi pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i ddiweddaru'r data sydd ar gael o'r Arolwg Byw yng Nghymru ac am y stoc tai yng Nghymru i wella'r ddarpariaeth o gynlluniau effeithlonrwydd ynni.
- Nodi pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU ar gydlynu'r data am gartrefi sydd â'r angen mwyaf am fesurau effeithlonrwydd ynni mewn ffordd well.

**Ymateb**

Cafodd y data diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2013 trwy’r Offeryn Rhagamcanu Tlodi Tanwydd, a ddarparodd amcangyfrifon wedi’u modelu o nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn 2011 a 2012. Prif ffigyrau yn unig oedd y rhain ar gyfer yr holl aelwydydd, aelwydydd agored i niwed, a thai cymdeithasol.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi data newydd ynghylch tlodi tanwydd. Fodd bynnag, mae hyn yn galw am waith i ganfod y ffordd fwyaf priodol a chost-effeithiol o gasglu data, er mwyn cynhyrchu data sylfaenol cadarn ynghylch tlodi tanwydd a gallu mewnbynnu data o raglenni Llywodraeth Cymru a dangos yr effaith y mae ein buddsoddiad yn ei chael ar fynd i’r afael â thlodi tanwydd.

Er mwyn canlyn arni â’r gwaith hwn cytunodd y Cyn-Weinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd a’r Gweinidog Tai ac Adfywio y byddent yn cydgyllido ymchwilydd annibynnol i wneud gwaith cwmpasu a chynhyrchu achos busnes dros fuddsoddi i nodi opsiynau yn y tymor byr a’r tymor hir i lenwi’r bylchau o ran data ynghylch cyflwr tai. Mae gwaith ar y prosiect hwn wedi dechrau ac rydym yn disgwyl i ganfyddiadau’r gwaith gael eu cyflwyno cyn yr haf.

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chydlynu’r data. Mae’r gwahaniaeth o ran argaeledd data rhwng Cymru a Lloegr yn golygu ei bod yn anodd cydlynu data ar draws y ddwy wlad. Fodd bynnag, mae swyddogion yn Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn gwneud gwaith i fapio cymunedau nad ydynt ar y rhwydwaith nwy ar ran Llywodraeth y DU ar gyfer y DU gyfan. Mae’r gwaith hwn yn adeiladu ar y gwaith i fapio cymunedau nad ydynt ar y rhwydwaith nwy a wnaeth Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth gyda Wales and West Utilities, ac y gwnaeth rhanddeiliaid annog Llywodraeth y DU i’w efelychu ar gyfer y DU gyfan. Hefyd, mae swyddogion yn cynnal cyswllt â Llywodraeth y DU o ran data ynghylch Tystysgrifau Perfformiad Ynni sydd ar gael ledled y DU.

**Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (ECO)**

Mynegodd nifer o randdeiliaid bryderon difrifol ynghylch y ddarpariaeth o gynlluniau ECO mewn ardaloedd gwledig hyd yma. Roedd llawer o sefydliadau'n cyhuddo'r

cwmnïau ynni o osgoi cyflawni eu rhwymedigaethau yn fwriadol mewn ardaloedd gwledig sy'n fwy anodd eu trin. Yn ei dystiolaeth, amlinellodd Ofgem mai dim ond 1% o'u his-rwymedigaeth gwledig yr oedd cwmnïau ynni wedi'i gyflawni ym mis Ebrill 2014. Nododd Ofgem ei fod yn pwysleisio pwysigrwydd darparu'n well yn erbyn y targed hwn. Yn eu tystiolaeth lafar, dywedodd y cwmnïau ynni a oedd yn bresennol eu bod yn hyderus y byddai'r newidiadau diweddar a wnaed i ECO gan Lywodraeth y DU yn gwella eu darpariaeth mewn ardaloedd gwledig.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech:

- Nodi unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU, Ofgem neu'r cwmnïau ynni ynghylch cyflawni ECO mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru;
- Nodi a yw Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch effaith bosibl y newidiadau i ECO ar bobl yng Nghymru;
- Nodi a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith i helpu cymdeithasau tai yng Nghymru yr effeithiwyd arnynt gan y newidiadau i ECO ac a yw wedi codi'r mater hwn gyda'r cwmnïau ynni dan sylw;
- A yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau i Lywodraeth Cymru y bydd angen i gwmnïau ynni barhau i leihau biliau defnyddwyr o ganlyniad i newidiadau ECO.

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau ynglŷn â’r mater hwn eto gyda Llywodraeth y DU, Ofgem na’r cwmnïau ynni. Fodd bynnag, fe ysgrifennodd y Cyn-Weinidog Cyfoeth Naturiol, Alun Davies, at yr Ysgrifennydd Gwladol, Ed Davey ym mis Chwefror 2014 i fynegi pryder ynghylch yr effaith y byddai newidiadau i ECO yn ei chael ar ddarparu mesurau inswleiddio waliau solet. Roedd y llythyr yn codi’r mater ynglŷn â nifer uchel y cartrefi â waliau solet a chartrefi anodd i’w trin yng Nghymru, a fyddai’n elwa o fesurau inswleiddio waliau solet; roedd hefyd yn pwysleisio’r angen i gynyddu’r cymorth i gartrefi nad ydynt ar y rhwydwaith nwy, gan nodi bod cymorth i gartrefi o’r fath wedi bod yn isel.

Hefyd, fe ymatebodd Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ynghylch y newidiadau arfaethedig i ECO. Roedd ein hymateb yn ailddatgan ein pryder ynghylch y ddarpariaeth wael mewn ardaloedd nad ydynt ar y rhwydwaith nwy, yn mynegi pryder arbennig ynghylch y diffyg darpariaeth yn y rhannau mwyaf pellennig o Gymru ac yn pwysleisio’r angen i wneud mwy i fynd i’r afael â’r mater hwn.

Mae swyddogion yn Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau gyda chwmnïau ynni hefyd ynghylch cyflawni ECO yng Nghymru, ac mae’r trafodaethau hyn wedi cynnwys effaith y newidiadau i ECO ar Gymru wledig a ffyrdd y gallai’r is-rwymedigaeth wledig dan y Rhwymedigaeth Cymunedau Arbed Carbon gael ei denu i Gymru i gefnogi aelwydydd mewn ardaloedd gwledig.

Fe ysgrifennodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Alun Davies, at Gregory Barker, y Gweinidog Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, yn gofyn am wybodaeth ynghylch y newidiadau arfaethedig a'r goblygiadau posibl ar gyfer Cymru. Fe ymatebodd y Gweinidog Gwladol gan nodi'r newidiadau ond dim ond yn gyffredinol fel a wnaed yn y cyhoeddiad. Fe ysgrifennodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd at y Gweinidog Gwladol drachefn gan ofyn iddo sicrhau bod swyddogion yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn rhoi sylw manwl i'r effeithiau y gallem eu disgwyl yng Nghymru o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

Hefyd fe ysgrifennodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd lythyr at Ed Davey, yr Ysgrifennydd Gwladol, yn mynegi pryder ynghylch y gostyngiad yn y targedau ar gyfer mesurau Inswleiddio Waliau Solet o ganlyniad i'r newidiadau i ECO. Tynnodd y Gweinidog sylw at y nifer uchel o gartrefi â waliau solet a chartrefi anodd i'w trin a fyddai'n elwa o fesurau inswleiddio waliau solet a'r angen i gynyddu'r cymorth i gartrefi nad ydynt ar y rhwydwaith nwy, gan nodi bod cymorth i'r cartrefi hyn wedi bod yn isel. Roedd y llythyr hefyd yn codi pryderon ynghylch nifer y cwynion yr oedd yn eu cael ynghylch gweithrediad ECO yng Nghymru a phwysigrwydd amddiffyn cwsmeriaid.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw geisiadau oddi wrth Gymdeithasau Tai i roi cymorth iddynt mewn perthynas â newidiadau i ECO. Fodd bynnag, mae swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd â Cartrefi Cymunedol Cymru ac yn hysbysu Cartrefi Cymunedol Cymru yn gyson ynghylch y gwaith mewn perthynas ag ECO.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth grant i awdurdodau lleol ddarparu cynlluniau effeithlonrwydd ynni sy'n seiliedig ar ardaloedd sy'n ysgogi buddsoddiadau ECO. Mae Cymdeithasau Tai wedi bod yn rhan o nifer o'r cynigion gan awdurdodau lleol ac mae unedau tai cymdeithasol wedi cael cymorth trwy'r cynlluniau hyn. Yn ogystal â hynny mae fy swyddogion wedi rhoi cyflwyniadau ar ECO mewn nifer o ddigwyddiadau y mae Cymdeithasau Tai wedi bod yn bresennol ynddynt. Mae'r rhain wedi cynnwys digwyddiad a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru yn benodol er mwyn rhoi cymorth i landlordiaid lleol cofrestredig gael mynediad at fathau arloesol o gyllid gan gynnwys cyllid o ECO.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau wrth Lywodraeth Cymru y bydd yn parhau i leihau biliau defnyddwyr o ganlyniad i'r newidiadau i ECO.

**Dyled Tanwydd a mesuryddion talu ymlaen llaw**

Mynegodd y rhanddeiliaid bryder ynghylch lefel y ddyled tanwydd yng Nghymru a sut y mae cwmnïau ynni yn ymdrin â'r rheini mewn dyled tanwydd. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru wrthym fod 2,500, ar gyfartaledd, o bobl yn cysylltu ag ef bob blwyddyn mewn perthynas â dyled tanwydd. Dywedodd SSE

wrthym ei fod yn cydnabod bod mwy o bobl mewn dyled tanwydd yng Nghymru na Lloegr a'r Alban a bod gan SSE lawer mwy o gwsmeriaid ar fesuryddion talu ymlaen llaw yng Nghymru.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech;

- Roi manylion am unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael â'r cwmnïau ynni am y canlynol:
  - y lefelau uwch o ddyled tanwydd a chwsmeriaid sydd ar fesuryddion talu ymlaen llaw yng Nghymru,
  - eu polisïau ar gyfer ymdrin â chwsmeriaid mewn dyled tanwydd,
  - eu polisïau ar gyfer asesu addasrwydd mesuryddion talu ymlaen llaw ar gyfer cwsmeriaid sy'n agored i niwed
  - y rhwystrau y mae cwsmeriaid yn eu hwynebu sydd â mesuryddion talu ymlaen llaw ac sydd am newid i ffyrdd eraill o dalu; a
  - chyflwyno mesuryddion deallus yng Nghymru.

**Ymateb**

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda chwmnïau ynni ynghylch dyled tanwydd na mesuryddion talu ymlaen llaw. Er bod Cyn-Weinidogion a swyddogion wedi cael trafodaethau gyda chyflenwyr ynni yn y gorffennol ynghylch costau tanwydd a thariffau ynni, mae'n bwysig cydnabod nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau i reoleiddio cyflenwyr ynni na'i gwneud yn ofynnol iddynt newid eu polisïau a'u harferion ar gyfer dyled tanwydd na systemau talu. Gan Lywodraeth y DU a'r corff rheoleiddio ynni, Ofgem, y mae'r pwerau hyn.

Mae trafodaethau diweddar fy swyddogion gyda chyflenwyr ynni wedi canolbwyntio'n bennaf ar Rwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (ECO) a'r effaith negyddol y gallai newidiadau Llywodraeth y DU i ECO ei chael ar Gymru. Ein blaenoriaeth fu sicrhau, er gwaethaf y newidiadau hyn, ein bod yn cynyddu i'r eithaf y cyllid a gaiff ei ysgogi ar gyfer Cymru ac yn helpu mwy o gartrefi incwm isel i wresogi eu cartrefi am gost fwy fforddiadwy.

Rwy'n pryderu bod prisiau ynni cynyddol a Diwygiadau Lles Llywodraeth y DU yn cael effaith ariannol sylweddol ar gyllidebau aelwydydd ac yn gwthio mwy o aelwydydd yng Nghymru i ddyled. Byddwn yn croesawu unrhyw gamau gweithredu y gall Ofgem eu cymryd i sicrhau bod cyflenwyr ynni'n cefnogi aelwydydd sy'n profi anawsterau gyda'u biliau tanwydd. Rwy'n croesawu datganiad Ofgem yn ei adroddiad blynyddol diweddaraf ar Rwymedigaethau Cymdeithasol y bydd yn cymryd camau gweithredu i sicrhau bod cwsmeriaid ar Fesuryddion Talu Ymlaen Llaw yn gallu cael mynediad at fargeinion gwell, yn enwedig os ydynt mewn dyled, ac y bydd yn sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â rheolau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt drin cwsmeriaid yn deg.

Cododd SSE bryderon yng nghynhadledd ddiweddar NEA ynghylch y costau dosbarthu uwch a wynebir gan ddefnyddwyr yng Nghymru a'r effaith y mae'r costau hyn yn ei chael ar filiau tanwydd. Mae hwn yn fater pwysig ac yn un y bydd Cyngor ar Bopeth, sydd â chyfrifoldebau statudol i gynrychioli buddiannau defnyddwyr ynni, yn dymuno mynd ar ei ôl o bosibl. Byddai Llywodraeth Cymru yn hapus i gydweithio gyda Cyngor ar Bopeth i geisio bargen deg ar gostau dosbarthu i ddefnyddwyr yng Nghymru.

O ran cyflwyno mesuryddion deallus, mae'r trafodaethau hyd yma wedi bod gyda Llywodraeth y DU a Smart Energy BG, sy'n arwain y broses genedlaethol o gyflwyno mesuryddion deallus ac ymgysylltu â defnyddwyr.